



Canllaw ar y
Cynllun Gradd Sêr

**LLETY FFLATIAU Â
GWASANAETH**



Cynnwys

- 1.0 **Cyflwyniad**
- 1.1 Eithriadau
- 1.2 Datganiad Mynediad
- 1.3 Arferion Da ym maes Hygyrchedd – Cyflwyniad
- 1.4 Arferion Da ym maes Cynaliadwyedd – Cyflwyniad
- 1.5 Naws am Le
- 2.0 **Gofynion Mynediad Sylfaenol**
- 2.1 Gofynion Cyffredinol
- 2.2 Cynnal a chadw
- 2.3 Iechyd a Diogelwch
- 2.4 Y Tu Allan
- 2.5 Glendid
- 2.6 Effeithlonrwydd Rheoli
- 2.7 Mannau Cyhoeddus Cymunedol
- 2.8 Ardaloedd Byw a Bwyta
- 2.9 Ystafelloedd Gwely
- 2.10 Ystafelloedd Ymolchi a Thoiledau
- 2.11 Cegin
- 2.12 Rhestr Cegin
- 3.0 **Canllawiau ar yr ansawdd a ddisgwylir er mwyn ennill sgôr ansawdd benodol**
- 3.1 Y Tu Allan
- 3.2 Yr Amgylchedd
- 3.3 Glendid
- 3.4 Effeithlonrwydd Rheoli
- 3.5 Gwybodaeth i Westeion a Thwristiaid
- 3.6 Ardaloedd Cyhoeddus Cymunedol (Derbynfa, lobi, grisiau, coridorau, lifftiau)
- 3.7 Y Fflat
- 3.8 Ystafelloedd Gwely
- 3.9 Ystafelloedd Ymolchi a Thoiledau
- 3.10 Cegin
- 3.11 Cyfleusterau ychwanegol
- 4.0 **Cod Ymddygiad**
- 5.0 **Amodau ar gyfer Cymryd Rhan**
- 6.0 **Newid Perchenogaeth**
- 7.0 **Arwyddion**
- 8.0 **Beth i'w Wneud Os Na Fyddwch yn Cytuno â'r Radd Sêr a Roddwyd**

1.0 Cyflwyniad

Ystyrir mai cael cynnyrch o ansawdd yng Nghymru yw'r ffactor pwysicaf er mwyn i Gymru allu cynnig profiad o'r radd flaenaf i'w hymwelwyr a gallu cystadlu yn y farchnad fyd-eang. Mae Croeso Cymru yn cydnabod hyn ac yn ymrwymedig i weithio gyda'r diwydiant er mwyn sicrhau y bydd ein llety, ni waeth pa fath o lety ydyw, yn parhau i fod yn gystadleuol.

Bydd gradd sêr yn bwysig i ddefnyddwyr wrth iddynt ddewis rhywle i aros ynddo neu ymweld ag ef a bydd ystod Croeso Cymru o Gynlluniau Gradd Sêr yn rhoi tawelwch meddwl i unrhyw ddefnyddiwr y bydd unrhyw eiddo sy'n arddangos argymhelliad swyddogol gan Croeso Cymru wedi cael ymweliad i fwrw golwg dros y lle cyn i chi gyrraedd.

Mae codi safonau yn hollbwysig i ddatblygiad twristiaeth yng Nghymru yn y dyfodol, felly byddwm yn eich annog i weithio gyda Croeso Cymru drwy ba un bynnag o'n cynlluniau gradd sêr sydd fwyaf addas i'r math o eiddo sydd gennych.

Mae cynllun graddio Fflatiau â Gwasanaeth yn debyg i'r cynllun graddio hunanddarpar, am fod tair rhan iddo, ac mae wedi'i ddatblygu ar y cyd â VisitEngland.

Fodd bynnag, mae cyfleusterau sydd eu hangen ar raddau sêr is o gymharu â meini prawf hunanddarpar, ac mae mwy o ofynion gwasanaeth.

Diffiniad

Yn aml, bydd fflatiau â gwasanaeth mewn blociau pwrpasol, a hyrwyddir neu a berchenogir yn rhannol gan y gweithredwr fflatiau â gwasanaeth. Byddant wedi'u lleoli mewn ardal drefol a'r brif farchnad yw'r teithiwr corfforaethol/busnes, er y gall twristiaeth hefyd fod yn farchnad allweddol.

Efallai y bydd modd aros mewn fflat o'r fath am gyfnod byr, ond gellir gwneud hynny am gyfnod hir, a dyma yw'r achos fel rheol. Bydd y fflatiau yn cynnig llety sydd fel bod gartref, gydag ystod ehangach o wasanaethau fel porthor, glanhau dyddiol os oes angen, prydau, gwasanaeth ysgrifenyddol, golchi dillad/sychlanhau, yn dibynnu ar y gofynion o ran gradd seren.

Er mwyn cynnig y gwasanaethau yn y cynllun Fflatiau â Gwasanaeth, ni fydd yn debygol y gall gweithredwyr neu asiantau sydd fel arfer â llai na chwe fflat â gwasanaeth gynnig y gwasanaethau gofynnol.

D.S. Dylai lesddeiliaid bob amser gael caniatâd y Rhydd-ddeiliad i ddefnyddio'r eiddo fel Fflat â Gwasanaeth.

Os na all eich eiddo fodloni'r gofynion hyn, edrychwch ar ein canllaw ar gyfer llety hunanddarpar – Canllaw i'r Cynllun Gradd Sêr Llety Hunanddarpar – a all fod yn fwy priodol ar gyfer eich math o wasanaeth. Gellir cael manylion am yr adran raddio ar dudalen Twristiaeth gwefan Busnes Cymru – <https://businesswales.gov.wales/tourism/cy>

Y Broses Raddio

Mae tair rhan i'r broses raddio a'r rhan sy'n sgorio isaf sy'n pennu'r sgôr derfynol;

- 1) **Y ganran gyffredinol.** Enillir y canrannau lleiaf am bob gradd seren ar sail sgôr o 1-5.

Gradd	Cyffredinol %	Glendid Cyffredinol %
★	35%	40%
★★	48%	50%
★★★	60%	65%
★★★★	75%	75%
★★★★★	87%	90%

- 2) **Cysondeb Adrannol.** Rhaid i lendid a'r ardaloedd tu mewn, ardaloedd byw, ystafelloedd gwely, ystafell(oedd) ymolchi a'r gegin i gyd gael y radd a ddymunir, h.y. os oes angen gradd 4 seren yna byddai'n rhaid i'r holl ardaloedd hyn fod yn radd 4 seren â 75% o leiaf.
- 3) **Y gofynion o ran cyfleusterau.** Mae gofynion sylfaenol a gofynion ychwanegol ar lefelau seren uwch.

1 Seren

- Ystafell ymolchi, basn ymolchi a thoiled am bob 4 gwestai. Cymhareb 1:4 a rhan ohoni.
- Os oes lle i fwy na chwech gysgu yn y fflat, cedwir y gymhareb 1:4 h.y. bydd dau westai yn defnyddio'r en suite a bydd uchafswm o bedwar yn defnyddio'r ystafell ymolchi a rennir arall.
- Ffôn deialu uniongyrchol ar gael Ffonau sy'n dangos rhif ffôn y fflat, rhif estyniad y dderbynfa a chyfarwyddiadau ar sut i ddefnyddio unrhyw wasanaethau ychwanegol, fel gwasanaethau peiriant ateb, galwadau rhwng fflatiau. Mae rhywbeth cyfatebol e.e. ffonau symudol rhagdaledig a chyfrifon Skype yn dderbyniol.

3 Seren

— Peiriant golchi dillad yn y fflat neu olchdy canolog (cymhareb o un peiriant i bob pum fflat) neu wasanaeth golchi dillad o fewn 24 awr (gall fod angen talu am yr olaf).

1.1 Eithriadau

Mae Croeso Cymru yn ymwybodol bod lleiafrif bach o adeiladau na allant ddarparu'r holl gyfleusterau oherwydd eu maint neu am eu bod yn "rhestredig". Os felly, caniateir peth hyblygrwydd, **ar yr amod y darperir ansawdd y radd Seren a geisir, ac y bodlonir yr holl ofynion cymhwyso adrannol**. Rhoddir pob gollyngiad, "yn amodol ar gwynion defnyddwyr." Bydd eich Asesydd Ansawdd yn gallu eich cynghori.

Os bydd Cynghorydd Ansawdd yn tynnu eich sylw at enghreifftiau o arfer dda – boed hynny mewn llyfrgell luniau neu drwy grybwyll enghreifftiau mewn parciau cyfagos eraill, bwriedir iddynt eich helpu, ac efallai y byddwch yn penderfynu eu rhoi ar waith. Mae'n werth nodi, fodd bynnag, mai dim ond enghreifftiau lle mae eitem wedi cael sgôr uchel ydynt, ond gall enghreifftiau eraill sgorio yr un mor dda. Weithiau gall bod yn ymwybodol o enghreifftiau da ddylanwadu ar eich syniadau chi.

1.2 Datganiad Mynediad

Beth yw Datganiad Mynediad? Cyfrif clir, cywir ac onest yw hwn o'r gwasanaethau a'r cyfleusterau y gall ymwelwyr anabl eu disgwyl NAWR, gan eu galluogi i ddewis y lleoliad sydd fwyaf addas iddynt.

NODER: Un o amodau cael eich cymeradwyo gan Croeso Cymru yw bod yn rhaid llunio datganiad mynediad a nodi pa mor hygyrch yw eich busnes. Dylai gael ei ddiweddarau'n rheolaidd er mwyn adlewyrchu newidiadau dros amser, a dylai fod ar gael i ddarpar westeion. Mae'n syniad da rhoi'r Datganiad Mynediad ar-lein fel arfer. Am gyngor ar sut i ysgrifennu Datganiad Mynediad, ewch i: www.visitbritain.org/business-advice/make-your-business-accessible/create-accessibility-guide
<http://www.visitengland.org/access>

1.3 Arferion Da ym maes Hygyrchedd – Cyflwyniad

Tra bo'r Datganiad Mynediad yn disgrifio'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd, mae'r rhan fwyaf o fusnesau'n gwybod bod Deddf Gwahaniaethu

ar Sail Anabledd 1995 yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar ddarparwyr llety i gael gwared ar rwystrau a gwella hygyrchedd i ymwelwyr lle bo hynny'n rhesymol. Mewn llawer o'r adrannau ar agwedd ansawdd yr asesiad, rydym wedi cynnwys nodiadau canllaw i'ch helpu i gyflawni'r amcan hwn. Er y bydd rhai awgrymiadau yn fwy perthnasol i rai nag eraill, rydym yn hyderus y byddwch yn gallu cyflawni rhai ohonynt, beth bynnag fo maint eich busnes. Gobeithio y bydd ein hawgrymiadau yn rhoi rhywfaint o arweiniad ymarferol i chi ar ddod yn fwy cynhwysol, ond cofiwch nad ydynt yn hollgynhwysfawr o bell ffordd.

Caiff y canllawiau arferion da eu rhoi yn y rhan o'r llyfr hwn sy'n cynnwys canllawiau ansawdd, yn y rhan fwyaf priodol o'r adran y maent yn berthnasol iddi.

1.4 Arferion Da ym maes Cynaliadwyedd – Cyflwyniad

Mae diogelu a gwarchod ein planed rhag effaith ddinistriol bywyd modern yn fater pwysig i fwy a mwy o bobl. Os nad ydych yn gwneud eisoes, hoffem eich gwahodd i ystyried sut y gallech wneud newidiadau bach i'r ffordd rydych yn rhedeg eich busnes er mwyn dangos i'ch ymwelwyr eich bod yn cymryd camau ecogyfeillgar. Gall hyn helpu i wella profiad gwesteion sy'n talu a hefyd helpu'r economi leol rydych yn rhan ohoni. Gall wneud synnwyr busnes da, drwy leihau eich costau a chynyddu eich elw.

Yn yr un modd â'r cyngor ar fynediad, nid yw'r cyngor hwn yn hollgynhwysfawr ac, os hoffech gael rhagor o gyngor ar y mater hwn, cysylltwch â gwasanaeth cynghori busnesau Llywodraeth Cymru drwy ddefnyddio'r ffurflen ymholi sydd ar gael yn <https://businesswales.gov.wales/tourism/cy/pecyn-cymorth-cynaliadwy> neu drwy ffonio 03000 6 03000.

1.5 Naws am Le

Er nad yw ansawdd byth yn colli ei blwyf, bydd creu Naws am Le yn helpu i sicrhau bod eich ymwelwyr yn cael profiad bythgofiadwy.

Gall fod yn rhywbeth syml, fel ychwanegu arwyddion gynnyrch, neu nodwedd i'ch busnes er mwyn creu naws lleol. Neu beth am ddysgu ffeithiau diddorol am eich ardal i'w rhannu â'ch ymwelwyr? Mae 'croeso' syml hefyd yn creu argraff gyntaf arbennig o dda.

Dyma drosolwg o frand Cymru a rhywfaint o arweiniad ar ein naws am le. Gobeithio y bydd hyn yn eich helpu i gynnis profiad heb ei ail i'ch ymwelwyr.

Ewch i <https://businesswales.gov.wales/tourism/cy/dolenni-defnyddiol> i gael rhagor o wybodaeth.

2.0 Gofynion Mynediad Sylfaenol

Er mwyn cael eich cydnabod yn y categori Fflatiau â Gwasanaeth, rhaid i weithredwr fodloni'r holl ofynion mynediad sylfaenol. Mae'r rhain yn cyfateb i radd 1 Seren.

I ennill gradd uwch, bydd angen bodloni'r gofynion o ran ansawdd a chyflwr a nodir yn y dangosyddion ansawdd ar gyfer y Lefel Seren honno, ynghyd ag unrhyw ofynion ychwanegol a nodir. Er enghraifft, i ennill Tair Seren, rhaid bodloni'r holl ofynion mynediad sylfaenol ar gyfer Un Seren a Dwy Seren, ynghyd ag unrhyw ofynion ychwanegol ar gyfer Tair Seren.

2.1 Gofynion Cyffredinol

Gofynion Mynediad Sylfaenol

Rhwymedigaethau Statudol

Diogelwch

- Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith
- Diogelwch Tân, Nwy a Thrydanol
- Profi Cyfarpar Trydanol
- Diogelwch Cynnyrch
- Rheoliadau gwelyau bync
- Safonau Prydeinig sy'n gymwys i eitemau fel cotiau, cadeiriau uchel a pheniau chwarae

Safle

- Caniatâd Cynllunio
- Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr
- Tai
- Trwydded Deledu

Gwahaniaethu

- Gwahaniaethu ar Sail Rhyw
- Gwahaniaethu ar sail Hil
- Gwahaniaethu ar Sail Anabledd
- Gwahaniaethu ar Sail Oedran

Cofnodion

- Diogelu Data
- Cofnodion Gwestai i Fewnfudwyr
- Diogelu defnyddwyr

Disgrifiadau Masnach

- Hysbysebu
- Prisio
- Telerau contract annheg

Gofynnir i weithredwyr ddangos tystiolaeth bod yswiriant atebolrwydd cyhoeddus yn cael ei gynnal a darparu cadarnhad ysgrifenedig ar adeg gwneud cais bod y gofynion uchod yn cael eu bodloni.

Cyffredinol

- Wrth asesu derbynioldeb yr arwynebedd llawr 'caeedig' sydd ar gael, bydd aseswyr yn ystyried faint o le sydd ar gael i'w ddefnyddio o amgylch dodrefn meddal a gosodiadau. Nid yw'n debygol y caiff y gofynion sylfaenol eu bodloni, os bydd llety yn llai na'r canlynol: 18.60 metr sgwâr (200 troedfedd sgwr) ar gyfer fflat 2 berson a 7.40 metr sgwâr (80 troedfedd sgwâr) am bob person ychwanegol sydd yno fel arfer. Mae'r arwynebedd llawr caeedig yn cynnwys ardaloedd byw, cysgu, coginio ac ystafell ymolchi.
- Dylid ystyried y gallu i symud o gwmpas, uchder y nenfwd yn y rhan fwyaf o'r ystafell sy'n ddigon i berson 183 cm (6 troedfedd) symud o gwmpas heb orfod plygu. Mae bondo a thoeon sy'n goleddu yn dderbyniol ar yr amod nad ydynt yn cyfyngu ar symudiadau gwesteion i radd annerbyniol.
- Hefyd, er mwyn cael gradd seren uwch na lefel sylfaenol Un Seren, bydd angen i'r arwynebedd llawr sydd ar gael fod yn fwy o faint, gyda chryn dipyn mwy o le defnyddiadwy o gwmpas eitemau dodrefnu meddal a gosodiadau.
- Rhaid bod digon o le i symud mewn ystafelloedd gwely/ardaloedd cysgu ac ystafelloedd byw, a rhaid sicrhau y gellir cyrraedd gwelyau, drysau a droriau yn hawdd.
- Rhaid gallu agor drysau a droriau yn llawn. Dylid ystyried faint o le sydd ei angen ar eitemau y gellir eu haddasu, e.e. gwelyau soffa ac ati.
- Dylai fod digon o ddarnau gosod, celfi, dodrefn meddal, llestri a chyllyll a ffyrac ar gyfer yr uchafswm nifer o westeion, gan gynnwys unrhyw lefydd cysgu ychwanegol.

Hunangynhwysol

- Rhaid sicrhau bod pob fflat yn gwbl hunangynhwysol*.

*Beth yw ystyr Hunangynhwysol?

Rhaid i ystafelloedd gwely, ystafelloedd ymolchi, ardaloedd cyhoeddus a chegin fflat

hunangynhwysol fod y tu ôl i un prif ddrws, a dim ond y deiliaid all eu defnyddio.

2.2 Cynnal a chadw

Gofynion Mynediad Sylfaenol

- Rhaid i unrhyw gyfarpar trydanol a nwy neu olew gyflawni'r holl rwymedigaethau statudol perthnasol (gweler y dudalen flaenorol), bod mewn cyflwr diogel ac yn gweithio, a chael ei wasanaethu'n rheolaidd a/neu gael prawf pat lle y bo'n briodol.
- Rhaid i darnau gosod, dodrefn meddal, gorchuddion llawr a gosodiadau hefyd gyflawni'r holl rwymedigaethau statudol perthnasol, yn enwedig mewn perthynas â diogelwch tân (gweler y gofynion cyffredinol). Rhaid cadw'r rhain yn lân ac mewn cyflwr da a rhaid iddynt fod yn addas i'r diben a fwriedir.
- Y tu allan, ni ddylai fod unrhyw beryglon ar y ffyrdd na'r palmentydd, na'r adeilad ei hun.

2.3 Iechyd a Diogelwch

Gofynion Mynediad Sylfaenol

- Dylid cynnal lefel uchel o ddiogelwch cyffredinol, gan gynnwys gwybodaeth am weithdrefnau mewn argyfwng.
- Os nad yw'r perchennog neu'r cynrychiolydd a benodwyd yn byw ar y safle, dylai ei enw, cyfeiriad a rhif ffôn neu fanylion ei asiant, y mae'n rhaid bod ganddo set o allwedd, gael eu harddangos yn glir, ynghyd â gwybodaeth glir am sut i gael cymorth mewn argyfwng.
- Rhaid arddangos manylion argraffedig mewn man amlwg am sut i gael gafael ar y gwasanaethau brys e.e. meddyg, deintydd, yr uned achosion brys a milfeddyg (os gellir dod ag anifeiliaid anwes) neu wasanaeth porthor 24 awr.
- Rhaid darparu biniau sbwriel addas ym mhob fflat. Rhaid bod gan finiau, os cânt eu darparu, gaead. Dylid dangos y trefniadau ar gyfer casglu sbwriel mewn man amlwg.
- Dylai gwesteion gael allwedd i ddrws ffyrnt y fflat, a lle y bo'n gymwys allwedd drws yr adeilad ei hun ac unrhyw gyfleusterau perthnasol eraill.
- Rhaid gosod o leiaf un larwm mwg ym mhob fflat, a hynny mewn man priodol mewn coridor neu ar landin. Efallai y bydd angen mwy nag un larwm mewn fflatiau mwy neu'r rhai â chynllun anarferol. (Gellir cael cyngor gan swyddog atal tân lleol.)

- Rhaid bod gan y safle offer diffodd tân a hysbysiadau sy'n ddarostyngedig i Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005, sy'n ei gwneud yn ofynnol i berchennog/unigolyn cyfrifol pob eiddo/busnes gynnal asesiad risgiau tân, gan gymryd camau dilynol fel sy'n briodol i leihau a/neu ddileu'r risg.
- Dylid sicrhau bod digon o oleuadau gyda'r nos er diogelwch a chysur ym mhob ardal gyhoeddus, gan gynnwys ar grisiau a landins, ac mewn meysydd parcio ac ar hyd llwybrau/grisiau i'r eiddo gyda'r nos.
- Dylid sicrhau bod pob gwasanaeth prif gyflenwad ar gael.
- Rhaid darparu nifer digonol o socedi trydan, sy'n cyfateb i nifer yr offer trydanol a ddarperir.
- Rhaid bod rhyw fath o oleuadau mewn argyfwng ar gael, e.e. tortsh neu oleuadau argyfwng. Ni ellir defnyddio canwyllau am resymau diogelwch tân.
- Dylid sicrhau bod pecyn cymorth cyntaf ar gael yn y llety.

2.4 Y Tu Allan

Gofynion Mynediad Sylfaenol

Gwedd Adeiladau

- Mae adeiladau yn lân ac mewn cyflwr da.

Tir a Gerddi

- Dylai gerddi a/neu fannau agored sy'n rhan o'r uned gael eu cynnal a'u cadw'n dda.
- Os oes gan yr eiddo ardaloedd atodol, caiff y cyfleusterau a ddarperir eu hystyried wrth asesu'r sefydliad, lle maent o dan reolaeth y gweithredwr. Dylai fod ganddynt arwyneb da, bod mewn cyflwr da, ac wedi'u goleuo'n ddigonol.

2.5 Glendid

Gofynion Mynediad Sylfaenol

- Mae glendid yn hollbwysig i westeion, felly rhaid cyrraedd a chynnal safon uchel o lendid ym mhob rhan o'r eiddo. Rhaid rhoi sylw arbennig i geginau, ystafelloedd ymolchi, ystafelloedd cawod a thoiledau ac eitemau y bydd gwesteion yn dod i gysylltiad uniongyrchol â nhw, fel dillad gwely, lliainiau, tywelion, baddonau, cawodydd, basnau ymolchi, toiledau, lloriau, seddi, llestri, cyllyll a ffyr, llestri gwydr ac offer a chyfarpar cegin.
- Y gweithredwr sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr holl eiddo wedi'i lanhau'n drylwyr drwyddi draw, cyn i westeion newydd gyrraedd, ni waeth a fydd y gwesteion a oedd yn aros yno wedi'i lanhau cyn gadael.

Dylid cael gwared ar unrhyw beth sydd wedi torri neu wedi cael ei ddifrodi.

- Rhaid glanhau'r eiddo bob wythnos o leiaf.
- Gellir glanhau'r lle bob dydd, ond efallai y codir tâl am hyn.

Gofynion Ychwanegol

5 Seren

- O leiaf 5 allan o 7 diwrnod o wasanaeth glanhau dyddiol wedi'i gynnwys ym mhreis y llety.

2.6 Effeithlonrwydd Rheoli

Gofynion Mynediad Sylfaenol

Archebion a Phrisiau sy'n Gymwys i lyfrynnau a gwefannau

- Sicrhau bod gwesteion yn gwybod beth yn union sydd wedi'i gynnwys yn y prisiau a ddyfynnir, gan gynnwys taliadau gwasanaeth, trethi ac unrhyw daliadau eraill, e.e. trydan, tanwydd, llieiniau, tywelion, cotiau ac ati.
- Ni ellir codi mwy na'r pris y cytunir arno ar adeg archebu.
- Rhaid i'r holl brisiau y cytunir arnynt gynnwys taliadau gwasanaeth a thaliadau eraill.
- Ar bob lefel, bydd gwesteion yn cael eu cyfarch a'u cydnabod mewn ffordd gyfeillgar, effeithlon a chwrtais drwy gydol eu harhosiad.

Dylai fod gwasanaeth archebu hawdd ac effeithlon sy'n cynnwys y canlynol:

- Sicrhau bod darpar westeion yn gwybod beth yn union sydd wedi'i gynnwys yn y prisiau a ddyfynnir, llety, prydau a lluniaeth, gan gynnwys tâl gwasanaeth a thaliadau eraill.
- Darparu gwybodaeth arall a all effeithio ar arhosiad y gwesteion, e.e. polisi ysmegu, gwaith adnewyddu sy'n mynd rhagddo, digwyddiadau sydd wedi'u trefnu ac ati. Os bydd y polisi yn nodi bod angen archebu rhai cyfleusterau ymlaen llaw, e.e. triniaethau sba, swper ac ati, dylai'r rhain gael eu crybwyll hefyd ar adeg archebu.
- Manylion llawn y polisi canslo os oes un. Mae hyn yn arbennig yn cynnwys gwybodaeth am godi tâl ar gardiau credyd am ganslo arhosiad neu newid manylion arhosiad.
- Gwybodaeth am flaendaliadau os oes eu hangen, gan gynnwys manylion am y ffordd y cymerir y blaendal, ac a gaiff ei ad-dalu os caiff yr arhosiad ei ganslo.
- Esboniad clir o daliadau am wasanaethau ychwanegol neu'r cyfleusterau sydd ar gael, gan gynnwys telerau canslo.

- Gwybodaeth am unrhyw fathau annerbyniol o daliadau e.e. cardiau credyd, sieciau teithwyr ac ati.
- Gwybodaeth a manylion llawn am unrhyw ffioedd a godir am dderbyn cardiau credyd.
- Manylion llawn am y llety, gan gynnwys trefniadau cysgu ac ystafell ymolchi (a oes ganddi fath neu gawod) a ddarperir yn ysgrifenedig neu mewn print cyn archebu yn y ffordd arferol. Os defnyddir gwelyau sofffa, gwelyau wal, gwelyau 'Z', gwelyau gwerysyla ac ati, yn ogystal â'r llety ystafell wely, rhaid i'r math o welyau, eu maint a'u nifer gael eu nodi'n glir
- Os gellir archebu wyneb yn wyneb, dylai'r gweithredwr ddangos y prisiau/tariff ar gyfer pob math a maint o fflat. Gall fod "y pen" neu "fesul fflat".
- Dylid sicrhau bod llawlyfr neu daflen wybodaeth ysgrifenedig ar gael. Anogir dangos cynllun llawr. Rhaid rhoi'r manylion am gael mynediad i'r eiddo cyn cyrraedd.

Dylai'r wybodaeth ganlynol fod ar gael yn hawdd cyn archebu:

- Trefniadau parcio wrth ymyl y fflat.
- A ellir dod ag anifeiliaid anwes ac unrhyw gostau y mae'n rhaid eu talu.
- Pa mor bell yw'r fflat o'r siop(au) agosaf ac ati.
- Pa mor bell yw'r fflat o'r drafnidiaeth gyhoeddus agosaf.
- Mathau o gyflenwad ynni, os nad oes trydan.
- Foltedd trydan, os nad yw'n safonol.
- Map a/neu gyfarwyddiadau yn dangos lleoliad y fflat ar adeg archebu neu gyda llawlyfr. (Gellir darparu'r wybodaeth hon yn fanylach ar ôl archebu).
- Rhestr o Eitemau ar gais.

Gadael y Llety

- Ar gais, rhoi manylion taliadau sy'n ddyledus a derbynneb, os bydd angen, i ymwelwyr. Rhaid i'r dderbynneb fod yn glir a threfnus.

Gwybodaeth i westeion a thwristiaid

- Dylid darparu gwybodaeth i dwristiaid.
- Gweler yr adran lechyd a Diogelwch hefyd.

Gofynion Ychwanegol wrth Gyrraedd

3 Seren

- Cynhwysion gwneud diod poeth ar gyfer un noson o leiaf.

3 Seren

Dylid darparu dwy eitem ychwanegol o'r rhestr ganlynol:

- Peiriant sychu dillad

- Wifi neu gysylltiad â'r rhyngwrwyd yn y fflat
- Hi-Fi/system stereo
- Peiriant DVD

4 Seren

- Cynhwysion brecwast (cyfandirol o leiaf) am noson (gellir codi tâl am hyn).

5 Seren

- Porthor/derbynfa â rhywun yno 24 awr y dydd.
- Ffôn deialu uniongyrchol ym mhob fflat.

2.7 Mannau Cyhoeddus Cymunedol

Gofynion Mynediad Sylfaenol

Cyffredinol

- Pob ardal â digon o le i westeion symud o gwmpas yn ddirwystr o amgylch yr holl gelfi a gosodiadau.
- Cadair a/neu sofffa, a digon ohonynt at y dibenion perthnasol.
- Arwyddion dim ysmegu amlwg.

Lifftiau

- Bydd angen lifft os oes fflat dri llawr neu fwy yn uwch neu'n is na llawr y brif fynedfa.
- Gall fod gollyngiadau ar bob lefel seren mewn adeiladau hŷn a/neu adeiladau rhestredig, os gellir dangos nad yw'n ymarferol gosod lifft neu na chaniateir hynny.

Gofynion Ychwanegol

3 Seren

- Bydd angen lifft os oes fflat ddau neu fwy llawr yn uwch neu'n is na llawr y brif fynedfa.

4 Seren

- Bydd angen lifft os oes fflat un neu fwy llawr yn uwch neu'n is na llawr y brif fynedfa.

5 Seren

- Disgwylir bod lifft i bob llawr yn y prif adeilad.

Gofynion Mynediad Sylfaenol

Décor a Lloriau

- Rhaid bod gan bob ystafell/ardal, cyntedd a set o risiau loriau addas, a dylai fod wedi'i haddurno mewn ffordd addas hefyd.

Celfi, Dodrefn Meddal a Gosodiadau

- Bydd yr holl gelfi, lloriau a gosodiadau yn briodol i'r math o fflatiau a'u defnydd, a chânt eu cadw mewn cyflwr da.

Gwres, Goleuadau ac Awyru

- Rhaid sicrhau bod digon o wres ar gael bob amser.
- Rhaid i bob ardal fyw gael ei goleuo'n ddigonol a rhaid bod lamplenni dros y goleuadau i gyd (oni fydd bylbiau yn addurniadol e.e. kannwyll). Rhaid darparu o leiaf 140 wat (cronnol) o olau neu'r hyn sy'n cyfateb i hynny yn nhermau watiau isel mewn ardaloedd byw.
- Bydd disgwyl mwy o watiau ac amrywiaeth o oleuadau mewn ystafelloedd/ardaloedd mwy o faint at ddibenion diogelwch a hwylustod.

Tabl trosi bylbiau golau sy'n arbed ynni

Bwlb Golau Cyffredin

100 Wat
75 Wat
60 Wat
40 Wat

Bwlb Golau Cyfatebol sy'n Arbed Ynni

20 – 23 Wat
15 – 18 Wat
11 – 13 Wat
9 Wat

- Rhaid awyru pob ardal gyhoeddus yn ddigonol fel nad oes unrhyw arogleuon coginio nac arogleuon eraill yn amlwg.

2.8 Ardaloedd Byw a Bwyta

Gofynion Mynediad Sylfaenol

Cyffredinol

- Pob ystafell â digon o le i westeion symud o gwmpas yn ddirwystr o amgylch yr holl gelfi a gosodiadau gan gynnwys gwelyau sofffa. Efallai fod yr ystafelloedd yn fach ond mae gwaith cynllunio gofalus yn sicrhau y gwneir y defnydd gorau o le.
- Bydd uchder y nenfwd yn y rhan fwyaf o'r ystafell yn ddigon i berson 6 troedfedd symud o gwmpas heb orfod plygu. Mae bondo a thoeon sy'n goleddu yn dderbyniol ar yr amod nad ydynt yn cyfyngu ar ran helaeth o'r ystafell.
- Wrth asesu pa mor dderbyniol yw maint ystafelloedd, byddwn yn ystyried lle defnyddiadwy o gwmpas celfi a gosodiadau. Ni ddylid cyfyngu ar symud o gwmpas yn ddirwystr o gwbl.
- Dylai fod digon o seddi a bwrdd bwyta digon mawr ar gyfer yr uchafswm nifer o westeion.
- Os oes lle tân agored y gellir ei ddefnyddio, dylid darparu giard tân, procer, brwsh aelwyd, gefeiliau, rhaw, cynhwysydd tanwydd a bwced lludw.
- Dylid darparu cadeiriau a/neu sofffa, a digon ohonynt ar gyfer yr uchafswm nifer o

westeion a hysbysebir. Dylid darparu'r holl seddi hwylus yn y brif lolfa neu lolfeydd.

- Os oes signal teledu digidol ar gael, dylid darparu teledu lliw digidol.
- Dylai fod ffôn deialu uniongyrchol neu rywbeth cyfatebol ar gael e.e. ffonau symudol rhagdaledig. Ffonau sy'n dangos rhif ffôn y fflat, rhif estyniad y dderbynfa a chyfarwyddiadau ar sut i ddefnyddio unrhyw wasanaethau ychwanegol, fel gwasanaethau peiriant ateb, galwadau rhwng fflatiau.
- Dylid darparu gwybodaeth am gostau galwadau, gan ddangos costau nodweddiadol galwadau lleol, pellter hir, rhyngwladol, rhyngurwyd, a chysylltu â ffonau symudol ym mhob fflat.

Disgwylir i weithredwyr fflatiau ddarparu'r wybodaeth ganlynol i westeion fel mater o drefn:

- Cost un alwad leol 5 munud yn ystod oriau brig.
- Cost un alwad leol 5 munud pan nad yw'n oriau brig.
- Cost un alwad pellter hir 5 munud yn ystod oriau brig.
- Cost un alwad pellter hir 5 munud pan nad yw'n oriau brig.
- Cost un alwad ryngwladol 5 munud yn ystod oriau brig, e.e. UDA.
- Cost un alwad ryngwladol 5 munud pan nad yw'n oriau brig, e.e. UDA.

Hefyd, rhaid esbonio beth sy'n cyfrif am alwad leol a phellter hir, ac oriau brig.

- Dylid darparu biniau papur gwastraff nad ydynt yn fflamadwy ym mhob ardal fyw.

Lloriau

- Rhaid bod gan bob ystafell/ardal, coridor a set o risiau orffeniadau neu orchuddion llawr addas.

Celfi, Dodrefn Meddal a Gosodiadau

- Gosodir llenni tywyll, bleinds neu gaeadau ar bob ffenestr allanol mewn ardaloedd byw. Bydd hefyd angen i wydr ar ddrysau allanol/mewnol gael ei orchuddio os defnyddir y lolfa fel lle i gysgu neu lle gallai diffyg preifatrwydd fod yn broblem. (Dim ond os defnyddir y lolfa fel lle i gysgu y bydd angen i big ffenestr ffrâm 'A' a ffenestri toeon gael eu gorchuddio â llenni).
- Os oes lle i gysgu mewn ardaloedd byw, rhaid bod digon o le storio ar gyfer dillad gwely a dillad gwesteion.

Gwres, Goleuadau ac Awyru

- Rhaid sicrhau bod digon o wres ar gael bob amser, a fydd yn golygu bod gwres yn cael ei ddarparu mewn ardaloedd byw. Bydd gwres ychwanegol ar gael ar gais.
- Rhaid bod gan bob ardal fyw o leiaf un ffenestr sy'n agor yn uniongyrchol i'r awyr agored. Darperir system aerdymheru os na elli agor ffenestri.
- Rhaid i bob ardal fyw gael ei goleuo'n ddigonol a rhaid bod lamplenni dros y goleuadau i gyd (oni fydd bylbiau yn addurniadol e.e. kannwyll). Rhaid darparu o leiaf 140 wat (cronnol) o olau neu'r hyn sy'n cyfateb i hynny yn nhermau watiau isel mewn ardaloedd byw.
- Bydd disgwyl mwy o watiau ac amrywiaeth o oleuadau mewn ystafelloedd mwy o faint.

Tabl trosi bylbiau golau sy'n arbed ynni

Bwlb Golau Cyffredin	Bwlb Golau Cyfatebol sy'n Arbed Ynni
100 Wat	20 – 23 Wat
75 Wat	15 – 18 Wat
60 Wat	11 – 13 Wat
40 Wat	9 Wat

2.9 Ystafelloedd Gwely

Gofynion Mynediad Sylfaenol

Cyffredinol

- Pob ystafell wely â digon o le i westeion symud o gwmpas yn ddirwystr o amgylch yr holl gelfi a gosodiadau gan gynnwys gwelyau sofffa. Efallai fod yr ystafelloedd yn fach ond mae gwaith cynllunio gofalus yn sicrhau y gwneir y defnydd gorau o le.
- Bydd uchder y nenfwd yn y rhan fwyaf o'r ystafell yn ddigon i berson 6 troedfedd symud o gwmpas heb orfod plygu. Mae bondo a thoeon sy'n goleddu yn dderbyniol ar yr amod nad ydynt yn cyfyngu ar ran helaeth o'r ystafell.
- Wrth asesu pa mor dderbyniol yw maint ystafell wely, byddwn yn ystyried lle defnyddiadwy o gwmpas celfi a gosodiadau gan gynnwys gwelyau sofffa. Ni ddylid cyfyngu ar symud o gwmpas yn ddirwystr o gwbl.
- Dylai ystafelloedd i deuluoedd fod yn fwy o faint.
- Dylid gallu agor droriau a drysau led y pen, heb orfod symud celfi.

Lloriau

- Rhaid bod gan bob ystafell orffeniadau neu orchuddion llawr addas.

Celfi, Dodrefn Meddal a Gosodiadau

- Bwrdd/silff wrth ymyl y gwely a golau ar gyfer pob gwestai, gan gynnwys gwelyau bync (gall pâr o welyau rannu bwrdd a golau a bydd gan wely bync uchaf olau ond dylid darparu silff dop dim ond os yw'n ddiogel gwneud hynny).
- Bydd angen darparu biniau gwastraff nad ydynt yn fflamadwy.
- Rhaid darparu bwrdd gwisgo (neu rywbeth cyfatebol) â drych, cwpwrdd dillad neu reilen i hongian dillad a digon o ddroriau ym mhob fflat (gellir darparu lle silff yn lle droriau), mewn o leiaf un ystafell ddwbl neu bâr. Ni dderbynnir bachau ar gefn drysau ac ati; dylai fod modd hongian dillad yn rhydd.
- Chwe cambren fesul unigolyn. Ni cheir defnyddio cambrenni gwifrog.

Gwelyau a Dillad Gwely

- Bydd gwelyau, gan gynnwys gwelyau soffâ a bynciau, o'r meintiau canlynol:
Sengl: 190cm x 90cm/6 troedfedd
3 modfedd x 3 troedfedd Dwbl: 190cm x 137cm/6 troedfedd 3 modfedd x 4 troedfedd 6 modfedd. Dyrennir gwelyau 122cm/4 troedfedd yn rhai sengl.
- Ni dderbynnir gwelyau 76cm/2 droedfedd 6 modfedd, heblaw mewn ystafelloedd i deuluoedd lle mae'n amlwg mai dim ond ar gyfer plant y maent yn cael eu darparu.
- Ni ellir trin gwelyau soffâ fel gwelyau parhaol.
- Dim ond plant a all gysgu mewn gwelyau bync (gwelyau parhaol). Lle y defnyddir gwelyau bync, dywedir wrth westeion pan fyddant yn archebu.
- Gallu mynd i mewn i wely dwbl o'r ddwy ochr.
- Bydd o leiaf un ystafell wely i oedolion heb welyau bync.
- Bydd pob matres yn un sbrings neu sbwng, neu o ansawdd tebyg, ac yn lân ac mewn cyflwr da. Rhaid bod y dillad gwely yn lân ac wedi'u sychu'n dda.
- Darperir digon o ddillad gwely h.y. cynfas a dau flanced fesul gwely neu un duvet â tog addas (o leiaf 10 tog), a dau obennydd fesul unigolyn. Yn ystod y gaeaf, neu ar ddiwedd neu ddechrau'r tymor, dylid darparu mwy o ddilad gwely. Dillad gwely glân sydd wedi'i sychu'n dda.
- Gosodir gorchudd matres neu flanced gwaelod ar bob gwely. (Nid yw gorchuddion matresi plastig na rwber

yn dderbyniol at ddefnydd arferol.

Os darperir gorchudd rwber ar gyfer plant, dylai fod fel opsiwn ychwanegol ar ben y gorchudd matres arferol).

- Dylai pob gwely fod yn barod ar gyfer y gwesteion.
- Rhaid darparu dillad gwely a'i newid cyn i westeion newydd gyrraedd, a dylid cynnig ei newid bob wythnos yn ystod yr arhosiad. Dillad gwely a llieiniau sbâr ar gael ar gais. Rhaid darparu cynfasau poly-gotwm neu gotwm.
- Os oes angen mynd drwy ystafell wely i gyrraedd un arall, rhaid nodi hyn yn glir yn y llawlyfr.
- Os oes angen mynd drwy ystafell ymolchi i gyrraedd ystafell wely (heb gynnwys ensuites), yna rhaid i'r fflatiau hyn gael eu dynodi'n rhai sy'n addas i deulu yn unig, a dylent gael eu hysbysebu felly hefyd.

Gofynion Ychwanegol

4 Seren

- Bydd pob ardal gysgu a hysbysebwr mewn ystafelloedd gwely yn unig. (Lle yr hysbysebwr yn glir mai fflatiau stiwdio sydd dan sylw, bydd eithriad i hyn).

5 Seren

- Bydd pob gwely yn ddigon o faint h.y. Dwbl 5' a sengl 3' gan gynnwys gwelyau i blant. (heb gynnwys gwelyau 'Z' a ddefnyddir dros dro i blant yn unig).
- Bydd teledu digidol yn y brif ystafell wely.

(Nid yw'n debygol y byddai byth modd cael Pum Seren os oes angen mynd drwy ystafell ymolchi neu ystafell wely i gyrraedd ystafell wely arall).

Ystafelloedd Gwely Oriolog

- Os bydd eiddo ond yn addas i ddau unigolyn, gellir ennill unrhyw sgôr. Rhaid hysbysebu'r ffaith mai ystafell wely orielog sydd ar gael mewn unrhyw ddeunydd farchnata.
- Os bydd yr eiddo yn addas i fwy na dau westai, a bod ystafell wely orielog, rhaid hysbysebu hyn yn glir yn y llawlyfr. Pedair Seren fyddai'r radd fwyaf a fyddai'n bosibl. Y rheswm dros hyn yw'r diffyg preifatrwydd, cadw golau allan, a sŵn.

Gwres, Goleuadau ac Awyru

- Rhaid sicrhau bod gwres ar gael bob amser, a fydd yn golygu bod gwres yn cael ei ddarparu ym mhob ystafell wely fel rheol.
- Rhaid i bob ystafell wely gael ei goleuo'n ddigonol a rhaid bod lamplenni dros y goleuadau i gyd. Dylid darparu o leiaf 140 wat

(cronnol) neu'r hyn sy'n cyfateb i hynny yn nhermau watiau isel. Bydd disgwyl mwy o watiau ac amrywiaeth o oleuadau mewn ystafelloedd mwy o faint.

Tabl trosi bylbiau golau sy'n arbed ynni

Bwlb Golau Cyffredin	Bwlb Golau Cyfatebol sy'n Arbed Ynni
100 Wat	20 – 23 Wat
75 Wat	15 – 18 Wat
60 Wat	11 – 13 Wat
40 Wat	9 Wat

- Rhaid bod gan bob ystafell wely o leiaf un ffenestr sy'n agor yn uniongyrchol i'r awyr agored; bydd gan ffenestri lenni tywyll, bleinds neu gaeadau. Darperir system aerdymheru os na ellir agor ffenestri.

2.10 Ystafelloedd Ymolchi a Thoiledau

Cyffredinol

- Bydd gan bob fflat o leiaf un ystafell ymolchi a thoiled am bob pedwar gwestai. Bydd yr ystafell ymolchi yn cynnwys bath neu gawod, mat bath, rheilen dywelion (ni fydd pegiau na bachau yn dderbyniol), silff neu arwyneb gwastad, a basn ymolchi. Os na fydd gwaelod y bath neu'r gawod yn ddilithrig, yna mae'n rhaid darparu mat nad yw'n llithro. Darperir dysgl sebon ym mhob cawod.
- Os nad oes bath na chawod, rhaid nodi hyn yn y llawlyfr ac ar y wefan.
- Oni fydd ensuite, nid yw'n dderbyniol gorfod mynd drwy ystafell wely i gyrraedd un arall, oni fydd y fflat i deulu yn unig.

Beth yw en suite?

- Mae'n cynnwys bath neu gawod, toiled a basn ymolchi mewn ystafell sydd wedi'i hawyru'n briodol, sydd wedi'i chysylltu ag ystafell wely a gellir mynd ato yn uniongyrchol o'r ystafell honno.
- Bydd basn ymolchi mewn prif ystafell ymolchi yn 36cm x 24cm (14" x 9") y tu mewn o leiaf, er yr argymhellir darparu basn ymolchi maint safonol bob amser os bydd lle. (Gallai basnau ychwanegol a gynigir mewn ensuites neu doiledau ar wahân lle mae'r basn yn y brif ystafell ymolchi yn cydymffurfio fod yn llai.)
- Drych uwchben neu wrth ymyl y basn ymolchi.
- Bydd gan bob fflat o leiaf un toiled. Bydd pob toiled yn cynnwys teclyn dal papur tŷ a phapur tŷ bach, brwsh toiled a bin â bagiau

cynnyrch mislif, neu fin â chaead.

- Bydd gan bob ffenestr lenni tywyll, bleinds neu gaeadau. (Rhaid bod gan ddrysau gwyrdd i ystafelloedd ymolchi a thoiledau lenni tywyll neu fleinds hefyd).
- Dylid sicrhau bod dŵr poeth ar gael.
- Rhaid gosod clo neu foltt ar bob drws/ystafell ymolchi nad yw'n en suite.
- Bydd pwynt rasel wrth ymyl drych, ac yn ddefnyddiol bydd golau. Mae addasydd mewn man arall yn y fflat yn dderbyniol, os gellir ei ddefnyddio wrth ymyl drych.
- Darperir tywelion (un llaw ac un bath fesul unigolyn) heb godi tâl ychwanegol a chât eu newid bob wythnos o leiaf, a bob tro y croesewir gwesteion newydd.
- Darperir bar sebon newydd sbon ar gyfer pob gwestai newydd (neu gellir darparu sebon hylif).

Gofynion Ychwanegol

3 Seren

- Os oes mwy na phedwar gwestai bydd cawod ar gael. Rhaid iddo fod yn llawrydd, ond gellir ei osod dros bath e.e. tap cymysgu.
- Dylid darparu dewis bach o gynnyrch ymolchi a phapur tŷ bach ar gyfer gwesteion newydd.

4 Seren

- Os bydd modd i fwy na phedwar gwestai gysgu mewn fflat, cynhelir y gymhareb o 1:4 ar gyfer Ystafelloedd Ymolchi/Thoiledau.
- Os bydd mwy na phedwar gwestai, bydd angen dwy ystafell ymolchi â thoiled, basn ymolchi a bath neu gawod. Rhaid bod gan o leiaf un o'r ystafelloedd ymolchi fath, a rhaid bod gan o leiaf un gawod.

5 Seren

- Bath a chawod ar gael yn y brif ystafell ymolchi. (Gall fod eithriadau ar gyfer cawodydd gwastad sydd wedi'u hadeiladu'n arbennig ar gyfer gwesteion â nam ar eu symudedd).
- Os bydd mwy nag un ystafell wely, dylai fod gan o leiaf un ystafell ymolchi en suite.
- Os bydd lle i fwy na chwech gysgu yn y fflat, cedwir y gymhareb 1:4 h.y. bydd dau westai yn defnyddio'r ensuite a bydd uchafswm o bedwar yn defnyddio'r ystafell ymolchi arall.
- Rhaid newid tywelion ddwywaith yr wythnos, yn amodol ar bolisi amgylcheddol.
- Darperir amrywiaeth o gynnyrch ymolchi i westeion newydd. Darperir mwy ar gais drwy gydol yr arhosiad. (Gellir codi tâl am hyn).

Gofynion Mynediad Sylfaenol

Lloriau

- Rhaid bod gan bob ystafell ymolchi/toiled orchuddion llawr addas. Dylid ystyried pa mor addas yw gorchuddion llawr at ddibenion hylendid a chadw tŷ.

Gwres, Goleuadau ac Awyru

- Dylid darparu gwres ym mhob ystafell ymolchi lle ceir ffenestr allanol. Mae rheilen dywelion wedi'i gwresogi yn dderbyniol.
- Rhaid i ystafelloedd ymolchi/toiledau fod wedi'u goleuo'n ddigonol a rhaid bod lamplenni ar bob golau, neu rhaid iddynt fod wedi'u diogelu'n addas.

Tabl trosi bylbiau golau sy'n arbed ynni

Bwlb Golau Cyffredin	Bwlb Golau Cyfatebol sy'n Arbed Ynni
100 Wat	20 – 23 Wat
75 Wat	15 – 18 Wat
60 Wat	11 – 13 Wat
40 Wat	9 Wat

- Dylai fod gan bob ystafell ymolchi a thoiled ffenestr sy'n agor neu dylai fod system awyru a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

Gofynion Ychwanegol

5 Seren

- Rheilen dywelion wedi'i gwresogi neu ryw ffordd o ddarparu tywelion sych ar gais.

2.11 Cegin

Gofynion Mynediad Sylfaenol

Cyffredinol

- Ffwrn, ag o leiaf ddwy silff, gril ac o leiaf bedwar cylch coginio y gellir eu defnyddio ar yr un pryd â'r ffwrn neu'r gril. Os mai dim ond dau westai sydd, rhaid darparu dau gylch berwi a ffwrn a gril. Ar gyfer mwy o westeion, h.y. chwech neu fwy, disgwylir i gyfleusterau coginio ychwanegol gael eu darparu. Mae meicrodon yn ddewis amgen derbyniol i un cylch berwi. Mae meicrodon cyfunol (ffwrn, gril a meicrodon) yn dderbyniol fel gril neu ffwrn, ar yr amod bod hob tri chylch hefyd ar gael ar wahân.
- Rhaid sicrhau bod y ffwrn yn lân ac mewn cyflwr da, a'i fod yn gweithio'n iawn.
- Dylid darparu meicrodon, gan gynnwys offer sy'n addas ar ei gyfer.

- Dylai fod oergell â blwch iâ (oni ddarperir rhewgell hefyd). Nid yw oergelloedd pantri yn dderbyniol os na ddarperir rhewgell.
- Rhaid cael sinc â bwrdd draenio, rac sychu llestri, dŵr poeth a dŵr yfed oer o'r tap.
- O leiaf un arwyneb gwaith hylan.
- Ffenestr sy'n agor neu system awyru a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Llenni tywyll, caeadau neu fleinds ar ddrysau gwydr a ffenestri allanol.
- Dylid darparu bin sbwriel â chaead a leinin.
- Rhaid bod gan y safle offer diffodd tân a hysbysiadau sy'n ddarostyngedig i Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005, sy'n ei gwneud yn ofynnol i berchennog/unigolyn cyfrifol pob eiddo/busnes gynnal asesiad risgiau tân, gan gymryd camau dilynol fel sy'n briodol i leihau a/neu ddileu'r risg.
- Lle storio sy'n addas i fwyd.
- Os darperir peiriant golchi llestri, dylai fod modd rhoi llestri, cyllyll a ffyrc a chyfarpar arall ynddo'n ddiogel. Dylid hefyd ddarparu llestri ychwanegol, fel nad oes angen defnyddio'r peiriant golchi llestri bob pryd bwyd pan fo llai o westeion.
- Dylid darparu digon o le i storio llestri, cyllyll a ffyrc, offer cegin ac offer glanhau.

Gofynion Ychwanegol

3 Seren

- Dylai fod peiriant golchi dillad yn y fflat neu olchdy canolog (cymhareb o un peiriant am bob pum fflat) neu wasanaeth golchi dillad o fewn 24 awr (gall fod angen talu am yr olaf o'r rhain).

4 Seren

- Dylai fod peiriant golchi dillad yn y fflat. Gwasanaethau golchi dillad a sychlanhau ar gais (gellir codi tâl am hyn) h.y. nid oes rhaid i westeion ddefnyddio golchdy.
- Mae rhewgell ar gael yn y fflat (mae blwch ia 3*** mewn oergell yn dderbyniol).
- Ceir peiriant golchi llestri neu wasanaeth golchi llestri am ddim yn y fflat (lystyriwch y maint o gymharu â nifer y gwesteion sy'n aros yn y fflat). Caiff rhywfaint o dabledi golchi llestri eu darparu a hysbysebhir hynny.

5 Seren

- Ceir rhewgell yn y fflat (nid yw blwch ia yn dderbyniol ar y lefel hon).
- Dylai fod peiriant golchi dillad yn y fflat. (Mae gwasanaeth golchi dillad o fewn 24 awr hefyd yn dderbyniol – ni chodir tâl amdano).

- Ceir peiriant golchi llestri yn y fflat (ystyriwch y maint o gymharu â nifer y gwesteion sy'n aros yn y fflat).

Lloriau

- Rhaid bod gan bob cegin orffeniadau neu orchuddion llawr addas. Dylid ystyried pa mor addas yw gorchuddion llawr at ddibenion hylendid a chadw tŷ.

2.12 Rhestr Cegin

Fesul Person

Rhaid sicrhau bod yr holl lestri yn mynd gyda'i gilydd.

Dylai setiau o wydrau hefyd fynd gyda'i gilydd.

- Powlen – grawnfwyd/pwdin
- Plât – mawr a bach
- Mwg
- Tymbler
- Gwydr gwin
- Cyllyll* – bwrdd ac ochr
- Llwyau – cawl, pwdin a the
- Ffyrç* – bwrdd a phwdin

*Cyllyll a ffyrç – mae'n dderbyniol darparu dwbl y nifer h.y. dau o bob un.

Rhaid sicrhau bod yr holl lestri yn mynd gyda'i gilydd; mae hyn hefyd yn wir am y set o wydrau.

Dylid ystyried nifer yr eitemau a ddarperir o ran ymwelwyr gwesteion a'r nifer lleiaf a mwyaf o westeion.

Fesul fflat

- Blychau llwch (os caniateir ysmegu) neu wybodaeth dim ysmegu.
- Hambwrdd pobi
- Bin bara
- Cyllell fara
- Cyllell torri cig
- Bwrdd torri
- Colandr
- Halen a phupur
- Corcsgrïw ac agorwr potel
- Bocs, rac neu rannwr drôr cyllyll a ffyrç
- Cadach llestri a/neu frwsh golchi llestri
- Padell llwch a brwsh
- Padell ffrio
- Hambwrdd iâ
- Tegell – awtomatig – heb gord yn ddelfrydol
- Siswrn Cegin
- Powlen gymysgu
- Lliain ffwrn
- Matiau bwrdd
- Piliwr tatws

- Sosbenni (mawr, canolig a bach â chaeadau). Mwy os oes mwy na 6 yn aros yn y fflat.
- Tun bisgedi ac ati
- Llwy fwrdd
- Llieiniau sychu llestri â bachau, rheilenni neu sugnwyr
- Dyfais agor tuniau
- Tostiwr
- Hambwrdd
- Lle i gadw cyfarpar e.e. rac sosbenni neu drôr a rennir
- Cyllell lysiau
- Powlen golchi llestri
- Hylif golchi llestri/tabledi peiriant golchi llestri
- Llwy bren neu blastig
- Cyfleusterau sychu dillad sylfaenol e.e. hors ddillad neu lein neu beiriant sychu dillad
- Brwsh llawr
- Bwced
- Cafetiere neu beiriant coffi
- Dysgl caserôl â chaead
- Tebot

Ar gael mewn fflatiau neu ar gais oddi wrth y dderbynfa. Os nad oes derbynfa yna rhaid iddynt gael eu darparu yn y fflatiau.

- Bin bara
- Gratiwr caws
- Cwpanau wy
- Ysbodol bysgod
- Haearn a bwrdd smwddio
- Jwg mesur
- Lliain neu menig ffwrn
- Bylbiau golau sbâr
- Hwfer
- Jwg dŵr
- Chwisg

3.0 Canllawiau ar yr ansawdd sy'n ddisgwyliedig er mwyn ennill sgôr ansawdd benodol

Gradd Ansawdd

Mae'r adrannau yn y rhan hon o'r canllaw yn dilyn trefn y graddau ac yn nodi beth mae'r Asesydd Ansawdd yn ei farcio o dan bob eitem ar y ffurflen. Mae'n rhoi syniad i chi o'r hyn sy'n ddisgwyliedig ar y lefelau amrywiol (lefel 1 yw'r isafswm lefel, h.y. ansawdd derbyniol, a lefel 5 yw ansawdd Ardderchog neu Eithriadol), fel y mae'n gymwys i'r agwedd honno ar yr eiddo. Dylai eich helpu i ddeall pam mae ein Hasesydd Ansawdd yn rhoi sgôr benodol.

Nodwch fod y Dangosyddion Ansawdd hyn yn gynrychioliadol, **ond nid ydynt yn ddiffiniol nac yn rhagnodol.**

Cyngor

Ar ddiwedd rhai adrannau, byddwch yn gweld paragraff, sy'n rhoi cyngor cyffredinol ar yr agwedd honno ar yr eiddo. Ei fwriad yw cynnig awgrymiadau ar sut y gall ansawdd gael ei wella, er mwyn eich helpu chi i ennill neu gynnal gradd, ond ni fydd ei ddilyn ynddo'i hun yn sicrhau y cewch radd uwch. Os bydd angen, gall ein Haseswyr Ansawdd gynnig cyngor pellach, yn benodol i'ch eiddo, naill ai yn ystod eich arolygiad neu yn yr adroddiad dilynol. Mae'r Aseswyr Ansawdd wedi'u hyfforddi i beidio ag ystyried chwaeth bersonol.

Nid gofynion seren yw Seren 1 – 5 a nodir yma, ond maent yn dangos y lefel o ansawdd a allai ennill sgôr benodol.

1 Ansawdd Seren (1 pwynt)

Ffactorau sy'n dynodi'r lefel ofynnol o ansawdd sy'n cyfateb i Un Seren. Gall eitemau gael eu disgrifio'n dderbyniol. Rhaid i bopeth fod yn ddiogel, yn lân ac yn gweithio. Ni ddylai fod angen trwsio na chynnal a chadw unrhyw beth.

2 Ansawdd Seren (2 bwynt)

Ffactorau sy'n dynodi lefel o ansawdd sy'n cyfateb i Ddau Seren.

Gall eitemau gael eu disgrifio'n Eithaf Da i Dda. Ar y lefel hon, gall eitemau fod yn gyfyngedig ond cynnig safon dda o lendid, a bod yn gweithio.

3 Ansawdd Seren (3 phwynt)

Ffactorau sy'n dynodi lefel o ansawdd sy'n cyfateb i Dri Seren. Gall eitemau gael eu disgrifio'n Dda i Dda lawn. Gall fod peth tystiolaeth o draul ond gwelir safon o waith cynnal a chadw da o hyd o ran cyfleusterau ac addurniad.

4 Ansawdd Seren (4 pwynt)

Ffactorau sy'n dynodi lefel o ansawdd sy'n cyfateb i Bedwar Seren. Gall eitemau gael eu disgrifio'n Dda lawn i Ardderchog heb unrhyw arwyddion amlwg o draul yn y cyfleusterau a ddarperir.

5 Ansawdd Seren (5 pwynt)

Ffactorau sy'n dynodi lefel o ansawdd sy'n cyfateb i Bum Seren. Gall eitemau gael eu disgrifio'n Ardderchog i Eithriadol. Bydd safon gyffredinol yr adeilad, y tu mewn a'r tu allan, yn uchel iawn, a bydd safonau rheoli ardderchog.

3.1 Y Tu Allan

Canllaw ar Ansawdd Edrychiad

Adeiladau

Bydd y décor, a'r gwaith o gynnal a chadw ac atgyweirio'r adeilad yn cael eu hasesu o dan yr adran hon. Mae hyn yn cynnwys gwaith cerrig, gwaith pren, ardaloedd wedi'u paentio, gwteri, pibellau, plymio allanol, simneiau a thoeon. Ystyrir arwyddion allanol ar yr adeilad (egllurder a'u cynnal a'u cadw) a goleuadau yma. Hefyd, asesir unrhyw adeiladau allan ac ardaloedd storio e.e. sbwriel yma. Caiff blychau ffenestri, tybiau a basgedi sy'n hongian sy'n sownd i'r adeilad eu hasesu o dan y pennawd hwn hefyd.

Un Seren

- Mae'r tu allan yn lân ac mewn cyflwr da a deniadol ar y cyfan.
- Gall yr arwyddion fod yn gynnil sy'n gweddu i'r farchnad darged.
- Gall fod rhai olion heneiddio a mân ddiffygion i'r gwaith cerrig neu frics.
- Mae'r ardal gyfagos gan gynnwys adeiladau/ardaloedd storio yn daclus yn gyffredinol.

Dwy Seren

- Dylai olion heneiddio a diffygion fod wedi'u cyfyngu i nifer bach o ardaloedd.

Tair Seren

- Yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda – hindreuliad i'w weld o bosibl.
- Dim diffygion strwythurol amlwg.
- Mae unrhyw arwyddion a gaiff eu harddangos mewn cyflwr da.

Pedair Seren

- Gwaith cerrig a gwaith paent yn cael eu cynnal a'u cadw i safon uchel, ond mae rhywfaint o hindreuliad naturiol yn bresennol.

Pum Seren

- Gwaith cynnal a chadw allanol o'r radd flaenaf, gan gynnwys: adeiladau allan ac arwyddion e.e. gwaith paent ffres sydd wedi'i gynnal a'i gadw'n dda, dim staeniau hyll ar y gwaith carreg.
- Nodweddion fel tybiau blodau a bocsys ffenestri wedi'u hychwanegu lle y bod hynny'n briodol.
- Gall fod nodweddion pensaernïol deniadol i'w gweld.
- Mae'r safle wedi'i oleuo'n dda yn gyffredinol ac yn enwedig wrth y fynedfa.
- Disgwylir system ffôn mynediad neu rywbeth tebyg.

Canllaw ar Ansawdd tir, gerddi, ffyrdd a llefydd parcio

Os nad oes gan yr eiddo unrhyw dir, gerddi na llefydd parcio, ni chaiff yr adran hon ei hasesu. Bydd yr asesiad o'r ardal hon yn cynnwys ardaloedd gerddi, gwrychoedd, llwybrau, dreifs, llefydd parcio a phob ardal o fewn ffiniau'r eiddo ac a welir o'r eiddo, neu y mae gan westeion fynediad iddynt ac sydd o dan reolaeth y perchennog.

Un Seren

- Golwg gyntaf ddigonol, e.e. biniau sbwriel o'r golwg.
- Caiff yr ardal gyfagos ei chynnal a'i chadw fel nad yw'n amharu ar yr edrychiad cyffredinol e.e. lawntydd a borderi sydd dan reolaeth.
- Nid yw ardaloedd biniau yn weladwy ac, yn ddelfrydol, maent o'r golwg yn llwyr.
- Gellir parcio ar arwyneb caled ac nid oes unrhyw dyllau na chwyn.
- Rhywfaint o ymdrech i ddiffinio'r ardal barcio.
- Mannau parcio gweddol hawdd eu defnyddio a diogel sydd wedi'u cynnal a'u cadw'n ddigonol. Os na ddarperir lle parcio, rhoddir gwybod i ddarpar westeion ble i barcio.

Dwy Seren

- Tystiolaeth o fwy o ymdrech i wneud gerddi yn fwy deniadol, yn daclus ac yn rhydd o sbwriel.
- Llwybrau heb beryglon baglu.

Tair Seren

- Caiff y tir, y gerddi, y rhodfeydd a'r llwybrau.
- Mynediad hawdd at lefydd parcio sydd ag arwyneb wedi'i gynnal a'i gadw'n dda, ac a ddiffinnir yn glir.
- Goleuadau effeithiol lle bo angen e.e. dreif hir neu lwybr i'r eiddo. Gall fod angen goleuo'r ardal barcio hefyd.
- Caiff diogelwch ceir gwesteion ei ystyried.

Pedair Seren

- Safonau cynnal a chadw uchel yn yr ardd. Gwelyau blodau, llwybrau a gwrychoedd yn daclus ar y cyfan a phob coeden a llwyn yn daclus.
- Tystiolaeth o rywfaint o sylw i fanylder, e.e. borderi lliwgar a llwybrau llydan a gwastad.
- Dylai'r ardal barcio fod ar arwyneb sydd wedi'i gynnal a'i gadw'n dda ac yn agos at yr eiddo yn ddelfrydol.

Pum Seren

- Cyrhaeddir safon ardderchog o ran y gwaith cynnal a chadw e.e. borderi neu lwyni deniadol a thaclus a gaiff eu cynnal a'u

cadw'n dda, llwybrau ac ymylon taclus mewn cyflwr da ac wedi'u torri'n dda, gwrychoedd wedi'u tocio ac ymdrech gyffredinol i'w cadw'n daclus drwy gydol y flwyddyn.

- Sylw at fanylder, gan gynnwys y tirlunio, dreifs, darpariaeth celfi gardd neu nodweddion pensaernïol, e.e. gasebo, pergola, tŷ haf ac ati.
- Digon o lefydd parcio wrth ymyl yr uned ar gyfer y nifer tebygol o westeion.
- Goleuadau da mewn manau da.

Arferion Da ym maes Hygyrchedd

Dylid cadw llwybrau'n glir o rwbel, mwsogl, iâ a dail a sicrhau bod arwynebau llwybrau yn gadarn ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda. Dylai pob ffordd fod yn rhydd o rwystrau oni bai eu bod wedi'u gosod yn sownd e.e. potiau blodau.

Dylid darparu halen dros y gaeaf er mwyn graeanu ardaloedd peryglus.

Os caiff llefydd parcio eu rhannu â fflatiau eraill, dylid darparu lle penodol (neu le y gellir ei gadw o leiaf) i bobl anabl lle y bo modd, ar arwyneb gwastad a chadarn a gaiff ei gynnal a'i gadw'n dda, yn agos at lety'r unigolyn. Fel arall, dylid nodi man gollwng a modd i'r gwesteion gysylltu â chi i roi gwybod eu bod wedi cyrraedd ac a oes angen cymorth arnynt. Gall rhai pobl fod yn ddwys-fyddar felly cofiwch na fyddant yn gallu eich clywed yn ymateb o bosibl. Dylech ystyried defnyddio ffordd weledol o gydnabod eich bod wedi eu clywed, fel fflachio tortsh.

Dylai'r llwybr o'r lle parcio i'r llety neu'r dderbynfa, os oes un, fod o leiaf 180cm o led ac wedi'i oleuo'n dda.

Dylid darparu o leiaf un rheilen ar y grisiau, gan wneud yr ymylon yn amlwg a, lle y bo modd, dylid darparu llwybr gwastad amgen neu â ramp sydd â graddiant 1:15 o leiaf. Gorau oll os yw'r ramp yn llai serth, nid yn unig i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn, ond i bawb.

P'un a fydd ymwelwyr yn cyrraedd y fflat yn uniongyrchol, neu wrth dderbynfa, gwnewch yn siŵr ei fod yn amlwg ac wedi'i oleuo'n dda. Bydd hyn yn rhoi tawelwch meddwl ac yn creu argraff gyntaf dda.

Os bydd angen i ymwelwyr roi gwybod i chi eu bod wedi cyrraedd, dylid darparu cloch allanol neu ffôn mynediad sydd â chyfarwyddiadau mewn print mawr a system mwyhau sain. Cofiwch y gall rhai pobl fod yn gwbl fyddar.

Arferion Da ym maes Cynaliadwyedd

Ar gyfer tir, gerddi a ffrytiadau, dylid ystyried defnyddio deunyddiau sy'n gweddu i'r amgylchedd lleol a nodweddion ffisegol y ddaeryddiaeth a'r ddaeareg leol.

3.2 Yr Amgylchedd

Canllawiau Ansawdd

Adlewyrchiad o'r agweddau cadarnhaol neu negyddol ar y lleoliad a'r ardal gyfagos a allai effeithio ar ba mor gysurus y mae'r gwesteion yn ei deimlo. Rhaid osgoi yr hyn a ffeirir yn bersonol. Ystyrir yr ymdrechion a wneir i oresgyn amgylchedd gwael drwy fesurau sgrinio neu fancio er mwyn lleihau unrhyw olygfa a sŵn annymunol e.e. gwydr dwbl.

Un Seren

— Argraff gyntaf foddhaol. Mae'r lefelau sŵn o draffig neu ddiwydiant neu gefn gwlad yn dderbyniol fwy neu lai.

Dwy Seren

— Wrth gyffordd/cylchfan ar ffordd brysur mewn rhan faestrefol o ddinas. Yn agos at unedau diwydiannol lle ceir sŵn gweithgynhyrchwyr a thraffig. Drws nesaf i leoliad cymdeithasol prysur e.e. neuadd fingo, cae pêl droed. Mewn ardal o amddifadedd cymdeithasol amlwg. Yn ddigon agos i glywed maes awyr, lle na wnaed unrhyw ymdrech i ddarparu inswleiddio sŵn ychwanegol. Ar safle llawn dop lle mae unedau yn agos at ei gilydd.

Tair Seren

— Mewn ardal canol dinas/tref, lle mae rhai cyfyngiadau parcio a thraffig prysur, ond yn agos at yr amwynderau. Ar fferm lle ceir llwybr mwdlyd i gyrraedd yr eiddo neu sydd â pheth peiriannau fferm gerllaw. Mewn rhan faestrefol o ddinas lle ceir traffig prysur a sŵn yn y pellter.

— Mewn man anghysbell, lle mae'n anodd cyrraedd yr eiddo e.e. llwybr garw a serth. Argraff gyntaf fraf. Dim lefelau sŵn gormodol. Parcio cryn bellter o'r eiddo

Pedair Seren

— O bosibl yn rhan o gyfateilad neu safle o adeiladau mewn lleoliad ardderchog fel arall. Yn agos at amwynderau dymunol ond ceir mynediad iddynt drwy, er enghraifft, system unffordd eithaf prysur, â pheth sŵn traffig amgylchynol. O fewn pellter cerdded i gyfleusterau, ond lle mae digon o lefydd parcio. Yn gyffredinol mewn lleoliad

a fyddai'n cael ei ystyried yn ardderchog, heblaw am beth anghyfleustra sy'n tynnu oddi ar y sgôr ardderchog.

Pum Seren

— Yn aml man tawel â chryn dipyn o dir, neu ar dir uchel sydd â golygfeydd godidog. Amgylchedd trefol, yn agos at ganolbwynt yr holl firi cymdeithasol/diwylliannol, fel canol dinas, sy'n gyfleus iawn i gerddwyr neu sydd â thrafnidiaeth gyhoeddus i fwytai, theatrau, neuaddau cyngerdd, ac orielau.

Cyngor

Mae'r argraff gyntaf yn bwysig, felly dylai gerddi, llefydd parcio a dreifs fod wedi'u chwynnu a dylent fod mor daclus â phosibl. Ystyriwch y farchnad y mae'ch eiddo yn ei gwasanaethu; i deuluoedd, efallai na fydd gwelyau blodau ffurfiol a phyllau yn addas, ac efallai y bydd angen i laswellt fod yn fwy cadarn. Fodd bynnag, efallai y bydd cwpwl yn gwerthfawrogi gerddi lliwgar yn llawn blodau. Os bydd eiddo yn agos at ei gilydd neu'n agos at eiddo'r perchennog, efallai y bydd gwesteion yn dymuno rhyw fath o sgrin i geisio cael preifatrwydd. Lle y bydd anifeiliaid gwyllt a domestig yn crwydro o gwmpas, efallai y bydd gwesteion yn mwynhau hyn, ond efallai na fyddant yn mwynhau'r baw sy'n cael ei adael ar ôl.

3.3 Glendid

Canllawiau Ansawdd

Ardaloedd cyhoeddus (mae hyn yn cynnwys rhannau cyffredin ardaloedd cyhoeddus ac ystafelloedd byw a bwyta mewn fflatiau ac ati)

Ffenestri, lloriau a sgertins, grisiau, rheiliau dado/lluniau a lluniau, clustogau o dan seddi, y tu mewn a'r tu allan i gelfi, socedi a switshys golau, gosodiadau goleuadau, ymylon nenfwd ac offer trydanol.

Ystafelloedd Gwely

Y tu mewn a'r tu allan i gelfi (top cypyrddau dillad a'r tu mewn iddynt), gosodiadau goleuadau ac ymylon nenfwd, lloriau a sgertins, o dan gwelyau, ffenestri, pennau gwely, fframiau a matresi.

Ystafell Ymolchi

Mae hyn yn cynnwys gorffeniadau waliau, lloriau, cyfarpar, llenni cawod, gosodiadau goleuadau, ffaniau echdynnu, tyllau plwg, tapiâu a brwshys toiled.

Cegin

Mae hyn yn cynnwys lloriau, waliau a theils, y tu mewn i gypyrddau a droriau, cyfarpar, llestri, sosbenni ac ati, yn ogystal â lwfrau ffwrn, ffaniau echdynnu, arwynebau gwaith, sblassgefnau a bylchau rhwng unedau.

Un Seren

- Mae'r holl arwynebau a chyfarpar yn lân, ac nid oes llwch ar y cyfan.
- Mae'r holl garpedi wedi cael eu hwfro ac mae'r lloriau wedi cael eu glanhau.
- Pob ardal yn arogl'n ffres ac yn lân cyn i'r gwesteion gyrraedd.

Dwy Seren

- Safon eithaf da ar y cyfan, ond mae'n bosibl y caiff rhai mannau eu hesgeuluso e.e. pry cop.

Tair Seren

- Tystiolaeth o sylw at fanylder, yn enwedig ar lefel uchel ac isel.
- Arwynebau glân.
- Dodrefn meddal a charpedi yn cael eu glanhau'n rheolaidd neu yn ôl y gofyn.

Pedair Seren

- Mwy o sylw i fanylder, gyda safonau cyffredinol uchel yn amlwg.
- Arwynebau sy'n disgleirio gyda thystiolaeth o lanhau trwyadl a sylw mawr at fanylder.

Pum Seren

- Lefel ardderchog o lendid.
- Dodrefn meddal a charpedi glân.
- Mae popeth fel pin mewn papur.

Arferion Da ym maes Cynaliadwyedd

Ystyriwch ddefnyddio cynhyrchion glanhau heb glorin, sy'n eco-gyfeillgar, fel cadachau micro ffeibr sy'n lleihau faint o hylif glanhau sydd ei angen.

3.4 Effeithlonrwydd Rheoli

Gwybodaeth i westeion cyn iddynt gyrraedd, gan gynnwys llyfryn

Canllawiau Ansawdd

Mae'r gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â gwesteion ar y cam trefnu llety, cyn iddynt gyrraedd, pan fyddant yn cyrraedd, a gwybodaeth i westeion er mwyn iddynt wneud y gorau o'u harhosiad yn cael eu hasesu yma.

Mae hyn hefyd yn cwmpasu'r wybodaeth a anfonir cyn a trefnu llety sy'n anelu at hysbysu gwesteion am yr eiddo a'r ardal. Gall hefyd

gynnwys gwefan y gweithredwr a/neu'r asiant ar gyfer yr eiddo.

Un Seren

- Gall y llyfryn/gwefan fod yn daflen syml wedi'i theipio sy'n rhoi gwybodaeth sylfaenol.
- Ceir map/cyfarwyddiadau clir a hawdd eu dilyn ar ôl trefnu llety.
- Anfonir llythyr cadarnhad drwy'r post.

Dwy Seren

- Gall y llyfryn/gwefan gynnwys mwy o fanylion ond efallai mai un ochr ydyw o hyd.

Tair Seren

- Ceir un llun neu fraslun (gall fod yn ddu a gwyn) a rhoddir mwy o wybodaeth.
- Efallai y bydd llythyr cyflwyno wedi'i gynnwys.

Pedair Seren

- Byddai'r llyfryn/gwefan yn cynnwys lluniau ac mewn lliw fel arfer, ond efallai nad rhywun proffesiynol sydd wedi llunio'r deunydd.
- Llyfryn llawn gwybodaeth sydd wedi'i gyflwyno'n dda ar bapur o ansawdd.

Pum Seren

- Safon broffesiynol â gwybodaeth glir, helaeth.
- Anfonir cyfarwyddiadau manwl a hawdd eu dilyn ar ôl trefnu llety.
- Llythyr cyflwyno personol gyda gwybodaeth ategol i dwristiaid.

Cyngor

Dylid rhoi syniad bras o leoliad yr eiddo, ond gellir anfon cyfarwyddiadau manwl ar ôl trefnu'r llety am resymau diogelwch.

Arferion Da ym maes Hygyrchedd

Mae'n bwysig cofio ei bod yn well gan bobl ffyrdd gwahanol o gyfathrebu ac nad oes gan bob darpar gwsmer gysylltiad â'r rhynggrwyd. Dylech gynnig dewis o ddulliau trefnu llety i'ch gwestieion, e.e. dros y ffôn neu drwy lythyr, ffacs, e-bost, Type Talk a Minicom, ac mae bob amser yn arfer dda gofyn i bob ymwelydd a oes ganddo unrhyw ofynion mynediad. Mae hyn yn bwysicach fyth yn yr oes sydd ohoni gan fod cyfleusterau trefnu ar-lein yn golygu y gellir trefnu ymweliad heb unrhyw gyswllt llafar rhyngoch chi a'r gwestai.

Bydd cwblhau Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Anabledd yn helpu i feithrin agwedd fwy ymatebol tuag at anghenion canfyddedig a gwirioneddol gwestai.

Dylid darparu gwybodaeth am wasanaethau ychwanegol fel trefniadau glanhau dyddiol, prydu, gwasanaethau ysgrifenyddol a gwasanaethau golchi dillad/sychlanhau mewn amrywiaeth o fformatau yn unol â dewisiadau gwahanol bobl, e.e. print mawr, Braille, ffotograffau, ffeiliau MP3 i'w lawrlwytho. Hefyd, pan fyddwch yn gwella'r wefan neu'n comisiynu un newydd, sicrhewch fod eich dylunwyr yn gyfarwydd â chanllawiau hygyrchedd ar y we – www.w3.org

Arferion Da ym maes Cynaliadwyedd

Dylech ystyried llunio eich polisi rheoli amgylcheddol eich hun, yn nodi'r camau rheoli amgylcheddol a chynaliadwy a gymerwyd; ymuno â chynllun rheoli twristiaeth werdd. Gallech ymuno â chynllun ad-dalu gwirfoddol i ymwelwyr, lle y bydd y busnes yn casglu arian ac yn ei roi i elusen leol, neu gallech roi rhodd corfforaethol i elusen leol, amgylcheddol neu addysgol.

Croeso a Gweithdrefnau Cyrraedd

Canllawiau Ansawdd

Dyma'r weithdrefn a ddilynir wrth groesawu gwesteion gan gynnwys y trefniadau mynediad e.e. casglu allwedd.

Un Seren

— Efallai na fydd modd croesawu gwesteion yn bersonol, felly gellir gadael allwedd mewn man diogel ar eu cyfer.

Dwy Seren

— Gellir cael allwedd gan yr unigolyn sydd â'r allwedd, ond prin yw'r gweithgarwch croeso ychwanegol.

— Mae cerdyn croeso yn gwahodd gwesteion i gysylltu â'r perchenogion neu'r asiant neu'r cynrychiolydd unrhyw bryd yn ystod yr arhosiad.

Tair Seren

— Os bydd cynrychiolydd yno i groesawu gwesteion newydd, dylid rhoi gwybod iddynt sut i gyrraedd y fflat neu eu tywys yno.

Pedair Seren

— Rhoddir croeso personol a hefyd ceir llythyr croeso neu alwad ffôn neu ymweliad, rywbryd ar ôl i'r gwesteion gyrraedd er mwyn sicrhau bod popeth yn iawn.

Pum Seren

— Croesewir gwesteion wrth iddynt gyrraedd a chysylltir â nhw ar ôl 24 awr i weld a yw popeth yn iawn.

— Rhoddir help llaw gyda bagiau yn awtomatig.

Arferion Da ym maes Hygyrchedd

Os nad oes neb wrth y dderbynfa ac nad oes porthor ar gael, ystyriwch roi rhif ffôn neu ffôn gwasanaeth i bwynt cyswllt/y sawl sydd â'r allwedd.

Os bydd rhywun wrth y dderbynfa, bydd darparu ardal daclus sydd wedi'i goleuo'n dda yn ei gwneud hi'n hawdd ei chyrraedd, a dylech hefyd ystyried darparu seddi i westeion sy'n aros – os oes lle. Mae hefyd yn syniad da darparu clipfwrdd a phen, a dolen glyw gludadwy o bosibl, er mwyn helpu i gyfathrebu â'r rhai â nam ar eu clyw.

Os gall defnyddwyr cadair olwyn ddod i mewn i'r eiddo, dylech ostwng uchder rhan o ddesg y dderbynfa neu ddarparu bwrdd ar wahân sydd ag o leiaf 65cm i 75cm o ofod clir oddi tano. Bydd carped trwch isel yn helpu i greu awyrgylch tawelach i gyfnewid gwybodaeth ac yn helpu gyda symudedd. Bydd lloriau dilithrig a matiau sy'n suddo i mewn i'r llawr yn helpu i atal pobl rhag baglu a llithro.

Canllawiau Ansawdd

Pecyn neu hamper croeso

Mae hyn yn cynnwys darparu cynhwysion gwneud diodydd a darpariaethau eraill a fydd yno i westeion pan fyddant yn cyrraedd ac yn ddigon am gyfnod byr.

Un Seren

— Cynhwysion gwneud diodydd sylfaenol h.y. te, coffi, siwgr, llaeth. Gall fod mewn bag bychan.

Dwy Seren

— Cynhwysion gwneud diodydd o ansawdd gwell.

Tair Seren

— Ystod ehangach o ddiodydd poeth yn cael eu darparu fwy na thebyg e.e. dewis o de a diodydd eraill fel siocled poeth.

— Rhoddir help llaw gyda bagiau yn awtomatig.

Pedair Seren

— Pecyn croeso a all gynnwys grawnfwydydd, sudd ffrwythau, digon o laeth, siwgr, bara a croissants ac ati gyda menyn a jam fel bod gwesteion yn gallu cael brechwast ar eu bore cyntaf.

Pum Seren

— Bwydydd o'r radd flaenaf ac ystod ehangach o gynhwysion brechwast e.e. wyau, caws,

cig moch, bara, menyn ac ati. Ystod eang o ddiodydd o'r radd flaenaf a all gynnwys potel o win.

3.5 Gwybodaeth i Westeion a Thwristiaid

Gwybodaeth i westeion a chyffyrddiadau personol yn yr uned

Canllawiau Ansawdd

Mae hyn yn cynnwys darparu a chyflwyno gwybodaeth am y llety e.e. sut i ddefnyddio'r cyfarpar, gwybodaeth am yr adeilad fel trefniadau casglu gwastraff ac oriau porthor, a hefyd wybodaeth i dwristiaid e.e. taflenni atyniadau.

Cyffyrffiadau personol yw'r agweddau hynny ar y fflat sy'n ei wneud yn fwy cartrefol a chroesawgar fel planhigion, llyfrau, ornaments ac ati.

Un Seren

- Gwybodaeth i Dwristiaid am yr ardal leol a chyfagos. Gall fod yn argymhellion personol a chynnwys y peiriannau codi arian agosaf, bwytai, canolfannau hamdden, mannau addoli ac ati. Amrywiaeth gyfyngedig o gyffyrddiadau personol.
- Rhoddir manylion am sut i weithredu'r holl gyfarpar yn yr uned a'r trefniadau casglu sbwriel.

Dwy Seren

- Dewis rhesymol o wybodaeth i dwristiaid nad yw'n rhy hen.
- Amrywiaeth fach o eitemau, e.e. llyfrau, DVDs, CDs ac ati.

Tair Seren

- Ystod ehangach o Wybodaeth i Dwristiaid gan gynnwys llefydd bwyta ac ati sydd fel arfer yn gyfredol.
- Cyflwynir gwybodaeth am y llety i safon dda.
- Ystod ehangach gan gynnwys llyfrau, gemau a chylchgronau.
- Gwybodaeth fanwl i westeion e.e. siopau lleol, tafarndai, cyfleusterau hamdden, eglwysi ac ati.

Pedair Seren

- Dewis eang o wybodaeth i dwristiaid am yr ardal leol a thu hwnt. Byddai disgwyl gweld rhywfaint o drefn ar y taflenni.
- Gwybodaeth ychwanegol wedi'i dwyn ynghyd gan y perchenogion, ac nid dim ond taflenni wedi'u llunio'n fasnachol. Gallai hyn gynnwys gwybodaeth am weithgareddau

chwaraeon a hamdden lleol, gwasanaethau busnes, lleoliad banciau, siopau, bwytai, theatrau ac ati, yn enwedig y rhai sy'n gwerthu cynnyrch lleol. Dylai'r wybodaeth hon gael ei harddangos mewn ffolder neu rac. Gall gwasanaethau 'porthor' fod yn cael eu darparu gan rywun allanol.

- Ystod dda iawn o gyffyrddiadau personol gan gynnwys llyfrau, gemau, pecyn edau a nodwydd, barbeciw, planhigion a chylchgronau.

Pum Seren

- Gall gwybodaeth gynhwysfawr gynnwys llyfrau am fannau o ddi-ddordeb lleol, mapiau arolwg ordnans, gwybodaeth am lwybrau cerdded ac ati. Dylai'r porthor fod yn rhagweithiol ac yn llawn gwybodaeth.
- Ystod ardderchog o eitemau, a allai gynnwys e.e. llyfrau coginio, llyfrau ffôn, CDs, DVDs. Bydd yn cynnwys rhai gwag i recordio arnynt.
- Caiff manylion cynhwysfawr eu cyflwyno i'r safon uchaf.

Cyngor

Ystyriwch beth yr hoffech chi ei wybod os na fydddech yn gyfarwydd â'r ardal a rhestrwch argymhellion personol ar gyfer pethau fel bwytai, tafarndai, siopau, llwybrau cerdded ac ati. Gallai taflenni gwybodaeth i dwristiaid gynnwys mynegai, e.e. gweithgareddau i'w gwneud gyda'r plant ar ddiwrnod glawiog ac ati. Mae angen i chi adael i'ch gwesteion wybod y bydd hi'n werth dychwelyd, am fod cymaint i'w weld a'i wneud.

Os darperir chwaraewr DVDs neu CDs yna gellid cynnwys amrywiaeth o CDs a DVDs. Os darperir chwaraewr DVDs yna gellid darparu rhai DVDs gwag neu rai DVDs adloniant. Mewn rhai ardaloedd, efallai y bydd modd prynu fideos, DVDs ar yr ardal leol ac atyniadau lleol, y gallai gwesteion eu mwynhau.

Arferion Da ym maes Cynaliadwyedd

Y wybodaeth i dwristiaid yn yr uned yw eich cyfle i restru'r mannau cyfagos sy'n gwerthu bwyd, diod a chreffft o'r ardal leol, ynghyd â gwybodaeth am y cynhyrchwyr lleol hynny. Gallech gynnig awgrymiadau ar gyfer diwrnodau allan heb ddefnyddio car, a rhoi manylion amserlenni trafndiaeth gyhoeddus a rhifau cyswllt i hyrwyddo hyn. Rhowch wybodaeth am lwybrau cerdded a beicio a manylion unrhyw gyfleusterau llogi beiciau lleol.

3.6 Ardaloedd Cyhoeddus Cymunedol (Derbynfa, lobi, grisiau, coridorau, lifftiau)

Canllawiau Ansawdd

Addurno

Yn ogystal â waliau a nenfydau, caiff darpariaeth ac ansawdd lluniau a phrintiau ac addurniadau wal eu hasesu yma. Mae'r asesiad o addurniadau waliau, nenfydau a gwaith pren yn edrych ar ansawdd, gwaith gosod a chyflwr. Nid ystyrir chwaeth bersonol yr asesydd.

Un Seren

- Décor ymarferol heb fawr ddim yn cyfateb.
- Cerflunwaith ac addurniadau cyfyngedig.

Dwy Seren

- Décor sydd wedi'i osod i lefel gymwys ac sydd o ansawdd eithaf da. Prin y gwelir unrhyw farciau amlwg.

Tair Seren

- Mae'r tu mewn yn braf, ac mae tystiolaeth o baru pethau o ran y dyluniad.
- Gorchuddion waliau a gwaith paent o ansawdd da, sydd wedi'u gorffen yn dda.
- Defnydd o luniau ac ati, lle y bo'n briodol, yn enwedig ar waliau plaen.

Pedair Seren

- Gorffeniad i safon broffesiynol sydd mewn cyflwr da iawn ac sydd â lefel briodol o addurniadau sy'n gweddu i'r steil.

Pum Seren

- Gwaith dylunio mewnol ac argraff gyffredinol o'r radd flaenaf.
- Gorchuddion waliau o safon uchel, sydd mewn cyflwr ardderchog; ôl broffesiynol i bob agwedd ar y gwaith addurno.
- Defnydd deniadol o luniau, printiau ac addurniadau eraill lle y bo'n briodol.

Arferion Da ym maes Cynaliadwyedd

Gellir defnyddio gwaith artistiaid lleol, printiau neu ffotograffau o ddelweddau sy'n dangos golygfeydd lleol, a delweddau sy'n gysylltiedig â hanes a threftadaeth, sydd i gyd yn ychwanegu at naws am le'r ymwelydd.

Lloriau

Canllawiau Ansawdd

Mae hyn yn cynnwys pob math o lawr, fel carpedi, laminad, seramig, pren naturiol neu finyl. Mae'r asesiad yn cwmpasu ansawdd, cyflwr a gosodiad.

Un Seren

- Lloriau sy'n cynnig lefel ddigonol o gysur, gyda rhai olion traul i'w gweld. Fodd bynnag, dylai fod wedi'i osod yn broffesiynol.

Dwy Seren

- Ansawdd eithaf da, ond gall fod llawer o ffeibrau artiffisial yn y carpedi.
- Ni ddylai teils fod wedi'u difrodi fawr ddim.

Tair Seren

- Lloriau o ansawdd da sydd mewn cyflwr da ac sy'n gyfforddus dan draed. Bydd gan deils growt glân.
- Lloriau pren mewn cyflwr da.

Pedair Seren

- Lloriau o ansawdd da iawn, heb fod, o reidrwydd, yn newydd, a gall fod olion traul neu gallant fod o ansawdd nad yw cystal ond mewn cyflwr fel newydd.
- Os darperir rygiau, dylent fod o safon uchel.

Pum Seren

- Lloriau o safon uchel, heb unrhyw arwyddion o draul go iawn.

Canllawiau Ansawdd

Celfi, Dodrefn Meddal a Gosodiadau

Mae hyn yn cynnwys ansawdd a chyflwr celfi, gan gynnwys desg y dderbynfa, byrddau achlysur, seddi, clustogau, polion llenni, llenni, gosodiadau goleuadau, cyfarpar gwresogi ac ati.

Un Seren

- Darpariaeth gynnil ond digonol o gelfi, dodrefn meddal a gosodiadau o ran ansawdd a niferoedd.
- Peth ymdrech i baru pethau.

Dwy Seren

- Gwell defnydd o gelfi achlysurol.
- Llenni o ansawdd gwell.

Tair Seren

- Celfi o ansawdd da.
- Paru da.

Pedair Seren

- Celfi o safon uchel sy'n gyfforddus iawn.
- Bydd gan lenni addurniadau ychwanegol fwy na thebyg, fel clymau.

Pum Seren

- Hen gelfi, celfi copi neu gelfi modern o safon uchel. Dylai desg y dderbynfa fod yn unol â hyn.
- Celfi a defnyddiau wedi'u paru'n ardderchog.
- Lefel uchel o gysur.

- Deunydd ffabrig meddal o safon uchel.

Gofod, Cysur a Hwylustod

Canllawiau Ansawdd

Mae hyn yn ystyried y defnydd o le a'r ffordd y mae'r adeilad wedi'i gynllunio i fod mor gyfleus a hwylus â phosibl i'r gwesteion. A oes rhywle ar gael yn y dderbynfa i westeion aros? Mae'r asesiad yn cwmpasu ansawdd, cyflwr a gosodiad.

Un Seren

- Digon o le i westeion wrth iddynt gyrraedd gyda'u bagiau.
- Coridorau a grisiau mewn cyflwr da ac yn rhydd o rwystrau.
- Rhoddir sylw penodol i'r gwaith o gynnal a chadw handlenni drysau, rhifau fflatiau, llestri pres a phaneli gwydr.
- Arwyddion clir sy'n dangos y ffordd i'r fflatiau a lifftiau/allanfeydd fel y bo'n briodol.

Dwy Seren

- Fel Un Seren, ond ansawdd gwell.

Tair Seren

- Desg derbynfa amlwg â lle i westeion wrth iddynt gyrraedd.

Pedair Seren

- Mwy o le a chysur, gan gynnwys o bosibl seddi i westeion sy'n cyrraedd ac yn gadael.

Pum Seren

- Ardal derbynfa sydd wedi'i dynodi'n glir.

Gwresogi, goleuadau a dulliau awyru

Canllawiau Ansawdd

Mae hyn yn ymwneud ag ansawdd a darpariaeth goleuadau a gwres, ac a yw'n ddigonol ar gyfer maint yr ardal a nifer y gwesteion sy'n defnyddio'r ardal honno. Dylai fod cydbwysedd o olau naturiol ac artiffisial lle y bo'n briodol.

Un Seren

- Lefelau digonol o olau 24 awr y dydd, mewn manau priodol (gan gynnwys y grisiau, landins a choridorau).
- Lefelau gwresogi sy'n briodol i faint y lle.
- Pob ardal wedi'i hawyru'n dda.

Dwy Seren

- Lefelau goleuo eithaf da.

Tair Seren

- Lefelau da o olau ym mhob ardal, gan gynnwys y grisiau, landin a choridorau ac ati. Mae'n debygol y bydd mwy nag un ffynhonnell o olau mewn ardaloedd eistedd e.e. lampiau wal, safonol. Digonedd o olau naturiol.

- Lefelau effeithiol o wres sy'n darparu tymheredd a gynhelir.

Pedair Seren

- Lefelau da iawn o olau. Dylai fod sawl math o oleuadau amgen mewn ardaloedd eistedd e.e. lampiau bwrdd, goleuadau wal, goleuadau llun ac ati.

Pum Seren

- Goleuadau o'r radd flaenaf sy'n creu effaith dda ac yn dangos y tu mewn yn y ffordd orau.
- Dylai'r goleuadau fod yn ymarferol at bob diben fel cofrestru gwesteion ac ati.

Arferion Da ym maes Hygyrchedd

Mae er budd pawb i sgrinio arwynebau cyfarpar gwresogi sydd yn y golwg er mwyn diogelu gwesteion rhag cael eu llosgi.

Arferion Da ym maes Cynaliadwyedd

Gall denuydd inswleiddio gwell a mwy o ddefnydd o systemau gwresogi y gellir eu rheoli â thermostat ac sy'n gwresogi ardaloedd penodol helpu i arbed ynni, a dylid ceisio defnyddio cymaint o olau naturiol â phosibl.

Lifftiau

Canllawiau Ansawdd

Mae hyn yn cynnwys pob lifft y gall gwesteion ei ddefnyddio. Os bydd gwesteion a staff gwasanaeth yn rhannu lifftiau yna caiff hyn ei ystyried hefyd.

Un Seren

- Mae cymorth gyda bagiau ar gael ar gais os nad oes lifft i rai lloriau.
- Os nad oes lifft i rai lloriau, dylai hyn fod yn glir ar adeg archebu llety.

Dwy Seren

- Fel Un Seren.

Tair Seren

- Ar y lefel hon, nid dim ond darparu lifft sy'n bwysig, ond hefyd ei faint, pa mor gysurus ydyw, ei ansawdd a pha mor gyflym ydyw.

Pedair Seren

- Fel Tair Seren.

Pum Seren

- Os rhennir lifftiau gan westeion a staff, dylid rhoi blaenoriaeth i westeion ar y lefel hon.

Arferion Da ym maes Hygyrchedd

Os darperir lifftiau, nid yw bob amser yn bosibl yn economaidd nac yn strwythurol i osod un sy'n dilyn canllawiau arfer orau, ond gellir gosod lifftiau yn ôl-weithredol sydd â negeseuon clywadwy a llythrennau a rhifau y gellir eu teimlo ar baneli rheoli. Pan gaiff lifft newydd ei osod, y dimensiwn mewnol a ffeirir yw 120cm o led a 140cm o ddyfnder ag agoriad drws 85cm. Bydd drych ar y wal gefn yn helpu defnyddiwr cadair olwyn i symud i mewn ac allan.

3.7 Y Fflat

Ardaloedd cyhoeddus (ardaloedd eistedd a bwyta). Yn cynnwys lolfeydd, ystafelloedd eistedd, heul dai ac ystafelloedd bwyta ar wahân.

Canllawiau Ansawdd

Addurno

Yn ogystal â waliau a nenfydau, caiff darpariaeth ac ansawdd lluniau a phrintiau ac addurniadau wal eu hasesu yma. Mae'r asesiad o addurniadau waliau, nenfydau a gwaith pren yn edrych ar ansawdd, gwaith gosod a chyflwr. Nid ystyrir chwaeth bersonol yr asesydd.

Un Seren

- Décor ymarferol heb fawr ddim yn cyfateb.
- Cerflunwaith ac addurniadau cyfyngedig.

Dwy Seren

- Décor sydd wedi'i osod i lefel gymwys ac sydd o ansawdd eithaf da. Prin y gwelir unrhyw farciau amlwg.

Tair Seren

- Mae'r tu mewn yn braf, ac mae tystiolaeth o baru pethau o ran y dyluniad.
- Gorchuddion waliau a gwaith paent o ansawdd da, sydd wedi'u gorffen yn dda.
- Defnydd o luniau ac ati, lle y bo'n briodol, yn enwedig ar waliau plaen.

Pedair Seren

- Gorffeniad i safon broffesiynol sydd mewn cyflwr da iawn ac sydd â lefel briodol o addurniadau sy'n gweddu i'r steil.

Pum Seren

- Gwaith dylunio mewnol ac argraff gyffredinol o'r radd flaenaf.
- Gorchuddion waliau o safon uchel, sydd mewn cyflwr ardderchog; ôl broffesiynol i bob agwedd ar y gwaith addurno.
- Defnydd deniadol o luniau, printiau ac addurniadau eraill lle y bo'n briodol.

- Nodweddion pensaernïol diddorol, gwrthrychau o ddiddordeb, gwaith celf, ac objects' d'art.

Arferion Da ym maes Cynaliadwyedd

Gellir defnyddio gwaith artistiaid lleol, printiau neu ffotograffau o ddelweddau sy'n dangos golygfeydd lleol, a delweddau sy'n gysylltiedig â hanes a threftadaeth, sydd i gyd yn ychwanegu at naws am le'r ymwelydd.

Lloriau

Canllawiau Ansawdd

Mae hyn yn cynnwys pob math o lawr, fel carpedi, laminad, seramig, pren naturiol neu finyl. Mae'r asesiad yn cwmpasu ansawdd, cyflwr a gosodiad.

Un Seren

- Lloriau sy'n cynnig lefel ddigonol o gysur, gyda rhai olion traul i'w gweld. Dylent fod wedi'u gosod yn broffesiynol.

Dwy Seren

- Ansawdd eithaf da, ond gall fod llawer o ffeibrau artiffisial yn y carpedi.
- Ni ddylai teils fod wedi'u difrodi fawr ddim.

Tair Seren

- Lloriau o ansawdd da sydd mewn cyflwr da ac sy'n gyfforddus dan draed. Bydd gan deils growt glân.
- Lloriau pren mewn cyflwr da.

Pedair Seren

- Lloriau o ansawdd da iawn, heb fod, o reidrwydd, yn newydd, a gall fod olion traul neu gallant fod o ansawdd nad yw cystal ond mewn cyflwr fel newydd.
- Os darperir rygiau, dylent fod o safon uchel.

Pum Seren

- Lloriau o safon uchel sydd mewn cyflwr ardderchog. Dim olion traul gwirioneddol.

Celfi, Dodrefn Meddal a Gosodiadau

Canllawiau Ansawdd

Mae hyn yn cynnwys ansawdd a chyflwr celfi yr ystafell fwyta a'r lolfa gan gynnwys seddi, clustogau, polion llenni, llenni, gosodiadau goleuadau, cyfarpar gwresogi, setiau teledu ac ati.

Un Seren

- Darpariaeth gynnil ond digonol o gelfi, dodrefn meddal a gosodiadau, o ran ansawdd a niferoedd.
- Peth ymdrech i baru pethau.

- Gall y llenni fod heb leinin, ond dylent gwrdd yn y canol a dylai bleinds fod yn rhydd.

Dwy Seren

- Mwy o ddarpariaeth o gelfi a all fod wedi dyddio neu dreulio, ond sy'n gadarn.
- Bydd llenni/bleinds o ansawdd gwell, byddant yn lân ac yn rhedeg yn ddirwysr.

Tair Seren

- Celfi o ansawdd da. Byddai disgwyl i glustogau wella lefelau cysur ac edrychiad seddi.
- Bydd gan gelfi yr ystafell fwyta beth padin.
- Llenni mwy sylweddol, â leinin.
- Paru da.
- Os darperir ardal fwyta ar wahân, gall yr uchafswm nifer o westeion fwyta'n gysurus.

Pedair Seren

- Celfi o safon uchel, ond sy'n cynnig cryn gysur.
- Bydd y llenni yn llawn, gydag addurniadau ychwanegol fel clymau o bosibl. Bydd gan y bleinds leinin a byddant yn hawdd i'w defnyddio.

Pum Seren

- Hen gelfi, celfi copi neu gelfi modern o safon uchel. Os darperir bwrdd sydd ag ochrau sy'n cwmpo, gellir ei ddefnyddio heb fawr ddim anghyfleustra.
- Celfi a defnyddiau wedi'u paru'n ardderchog.
- Gorchuddion ffenestri o'r radd flaenaf sydd wedi'u gosod yn dda, sydd â digon o orchudd ac sy'n ddigon llydan.
- Deunydd ffabrig meddal o safon uchel.

Gofod, Cysur a Hwylustod

Canllawiau Ansawdd

Mae hyn yn ystyried y defnydd o le a'r ffordd y mae'r ystafell wedi'i threfnu i fod mor gyfleus a hwylus â phosibl i'r gwesteion. A all y gwesteion eistedd a gwyllo'r teledu yn gyfforddus? A oes digon o le i'r uchafswm nifer o westeion i gyd fwyta gyda'i gilydd? A oes angen symud celfi i ddefnyddio'r cyfleusterau? Ystyrir y defnydd o welyau soffâ yma oherwydd mae hyn yn effeithio ar lefelau cysur a hwylustod.

Un Seren

- Ystod dderbyniol o gelfi sy'n cynnig lefel o gysur.
- Lle rhesymol i symud o gwmpas.
- Gall celfi mawr neu ormod o gelfi ddominyddu'r ystafell a'i defnydd arferol.

- Ni ddylai sŵn o'r tu allan amharu ar ystafelloedd a gall fod angen darparu gwydr dwbl er mwyn sicrhau nad yw hyn yn digwydd mewn lleoliadau trefol.
- Fawr ddim sŵn yn amharu ar westeion o bibellau dŵr, coridorau ac ati.

Dwy Seren

- Lefelau eithaf da o gysur ac ystod gyfyngedig o seddi.
- Mae'r holl gyfleusterau yn hawdd eu defnyddio.

Tair Seren

- Amrywiaeth o soffas a/neu gadeiriau breichiau.
- Digon o le i symud o gwmpas a celfi sydd wedi'i osod allan yn gyfleus at ddefnydd ymarferol.

Pedair Seren

- Cynllun y celfi wedi'i ystyried yn ofalus er mwyn gwneud y gorau o'r lle gwag sydd ar gael.
- Dylai fod modd i'r gwesteion fwyta gyda'i gilydd yn gysurus mewn un man.
- Llawer o le i symud o gwmpas.
- Os oes ardal fyw a chegin cynllun agored, dylai fod system awyru ddigonol e.e. ffaniau echdynnu er mwyn sicrhau bod cyn lleied o stêm ac arogleuon bwyd yn cyrraedd yr ardal fyw â phosibl.

Pum Seren

- Lolfa; yn gyffredinol bydd ar wahân i'r ystafell fwyta neu bydd ystafell fyw/bwyta ar y cyd sydd â hen ddigon o le.
- Ystod ardderchog o seddi cyfforddus.
- Defnydd hawdd a chyfleus o gyfleusterau, e.e. defnyddio arwynebau a mynediad at socedi trydan ac ati.
- Dim sŵn yn amharu ar westeion.

Arferion Da ym maes Hygyrchedd

Dylid anelu at amgylchedd taclus sydd â lle clir i gerdded o gwmpas heb daro yn erbyn celfi. Rhaid cadw pob llwybr yn glir ac wedi'i oleuo'n dda fel y gellir cario bagiau neu ddefnyddio ffrâm gerdded neu gadair olwyn yn ddiogel.

Os bydd defnyddwyr cadair olwyn yn gallu dod i mewn i'ch eiddo, ceisiwch ddarparu amrywiaeth o gadeiriau, rhai â breichiau a rhai hebddynt, a 65 i 75 cm clir o dan fyrddau.

Bydd llestri sydd â lliw gwahanol i'r lliain bwrdd neu'r arwyneb yn helpu gwesteion â nam ar eu golwg.

Bydd carped trwch isel yn darparu awyrgylch tawelach i gyfnewid gwybodaeth ag unigolyn â nam ar eu clyw a bydd yn haws i ddefnyddiwr cadair olwyn na charped dwfn. Bydd yn well gan ddefnyddwyr cadair olwyn arwyneb caled bron bob amser.

Ceisiwch osgoi carpedi dwfn a all wneud i rywun faglu neu ei gwneud hi'n anodd i ddefnyddiwr cadair olwyn symud o gwmpas.

Bydd lloriau dilithrig a matiau sy'n suddo i mewn i'r llawr yn atal pobl rhag baglu a llithro.

Ar bob gris neu pan fydd newid lefel, darparwch sribyn ymyl o liw gwahanol i'r llawr.

Dylid darparu o leiaf un rheilen barhaus ar risiau a lle ceir newid lefel.

Dylid sicrhau bod pob gwestai yn gwybod sut i arddangos isdeitlau ar y teledu gan ddefnyddio'r teclyn rheoli o bell. Bydd hyn o fudd i westeion â nam ar eu clyw a hefyd i westeion sy'n siarad ieithoedd tramor.

Dylai fod modd addasu lefelau'r goleuadau gan ddefnyddio switsh pylu a/neu dylai lampiau ychwanegol fod ar gael. Bydd o fudd i bawb os bydd arwynebau rheiddiaduron wedi'u gorchuddio er mwyn atal pobl rhag llosgi eu hunain.

Goleuadau a Systemau Gwresogi

Canllawiau Ansawdd

Mae hyn yn ymwneud ag ansawdd a darpariaeth goleuadau a gwres, ac a yw'n ddigonol ar gyfer maint yr uned a nifer y gwesteion sy'n defnyddio'r uned honno. Dylai fod cydbwysedd o olau naturiol ac artiffisial lle y bo'n briodol.

Un Seren

- Lefelau digonol o oleuadau sydd wedi'u lleoli'n briodol.
- Lefelau gwresogi sy'n briodol i faint ystafelloedd, ac efallai nad yw hyn yn awtomatig nac yn sefydlog.

Dwy Seren

- Lefelau goleuo eithaf da – gall hyn fod drwy brif olau ac un golau arall, â watedd uwch na'r isafswm o 140 wat.
- Gallai'r system wresogi fod yn ddyfais annibynnol a gall fod yn awtomatig neu gael ei rheoli â thermostat.

Tair Seren

- Lefelau goleuo da y gellir eu rheoli ym mhob ardal.
- Mae'n debygol y bydd mwy nag un ffynhonnell o olau e.e. lampiau wal, safonol. Digonedd o olau naturiol.

- Lefelau effeithiol o wres sy'n darparu tymheredd a gynhelir.
- System wresogi sefydlog, awtomatig sydd wedi'i gosod yn gywir ac y gellir ei rheoli â thermostat.

Pedair Seren

- Lefelau da iawn o olau y gellir ei reoli a all gynnwys defnyddio teclynau pylu golau mewn ystafelloedd.
- Dylai fod sawl math o oleuadau amgen e.e. lampiau bwrdd, goleuadau wal, goleuadau llun ac ati.
- Bydd systemau gwresogi awtomatig yn sefydlog ac wedi'u rheoli gan thermostat.

Pum Seren

- Goleuadau o'r radd flaenaf sy'n creu effaith dda ac yn dangos ystafelloedd yn y ffordd orau.
- Dylai'r goleuadau fod yn ymarferol at bob diben fel darllen, gweithio ac ati.
- Gall y gwestai reoli'r lefelau gwres ar unrhyw adeg o'r dydd a'r nos.
- Efallai na fydd gwresogyddion stôr yn bodloni'r gofyniad hwn.

Arferion Da ym maes Cynaliadwyedd

Gall denuydd inswleiddio gwell a mwy o ddefnydd o systemau gwresogi y gellir eu rheoli â thermostat ac sy'n gwresogi ardaloedd penodol helpu i arbed ynni, a dylid ceisio defnyddio cymaint o olau naturiol â phosibl.

3.8 Ystafelloedd Gwely

Addurno

Canllawiau Ansawdd

Yn ogystal â waliau a nenfydau, caiff darpariaeth ac ansawdd lluniau a phrintiau ac addurniadau wal eu hasesu yma. Mae'r asesiad o addurniadau waliau, nenfydau a gwaith pren yn edrych ar ansawdd, gwaith gosod a chyflwr. Nid ystyrir chwaeth bersonol yr asesydd.

Un Seren

- Décor ymarferol heb fawr ddim yn cyfateb.
- Cerflunwaith ac addurniadau cyfyngedig.

Dwy Seren

- Décor sydd wedi'i osod i lefel gymwys ac sydd o ansawdd eithaf da. Prin y gwelir unrhyw farciau amlwg.

Tair Seren

- Mae'r tu mewn yn braf, ac mae tystiolaeth o baru pethau o ran y dyluniad.

- Gorchuddion waliau a gwaith paent o ansawdd da, sydd wedi'u gorffen yn dda ac wedi'u gosod i safon broffesiynol.
- Defnydd o luniau ac ati, lle y bo'n briodol, yn enwedig ar waliau plaen.

Pedair Seren

- Gorffeniad i safon broffesiynol sydd mewn cyflwr da iawn ac sydd â lefel briodol o addurniadau sy'n gweddu i'r steil.

Pum Seren

- Gwaith dylunio mewnol ac argraff gyffredinol o'r radd flaenaf.
- Ôl proffesiynol i bob agwedd ar y gwaith addurno.
- Defnydd deniadol o luniau, printiau ac addurniadau eraill.
- Nodweddion pensaernïol diddorol, gwrthrychau o ddiddordeb, gwaith celf, objects' d'art, trefniadau blodau.

Arferion Da ym maes Cynaliadwyedd

Gellir defnyddio gwaith artistiaid lleol, printiau neu ffotograffau o ddelweddau sy'n dangos golygfeydd lleol, a delweddau sy'n gysylltiedig â hanes a threftadaeth, sydd i gyd yn ychwanegu at naws am le'r ymwelydd.

Lloriau

Canllawiau Ansawdd

Mae hyn yn cynnwys pob math o lawr, fel carpedi, laminad, pren naturiol neu finyl.

Un Seren

- Mae'r lloriau'n ddigon cyfforddus.
- Gall gorffeniadau gynnwys carpedi, lloriau solet, pren, finyl ac ati.

Dwy Seren

- Ansawdd eithaf da, ond gall fod llawer o ffeibrau artiffisial yn y carpedi.
- Ni ddylai teils fod wedi'u difrodi fawr ddim.

Tair Seren

- Llawr o ansawdd da sydd mewn cyflwr da ac sy'n gyfforddus dan draed.

Pedair Seren

- Lloriau o ansawdd da iawn, ond nid o reidrwydd yn newydd a gall fod olion traul neu gallant fod o ansawdd nad yw cystal ond mewn cyflwr fel newydd.
- Os darperir rygiau, dylent fod o safon uchel.

Pum Seren

- Lloriau o safon uchel, heb unrhyw arwyddion o draul go iawn ac wedi'u gosod yn broffesiynol.

Cyngor

Anogir haen waelodol o safon uchel. Gall hyd yn oed haen waelodol o ansawdd o dan garped llai moethus helpu a gwneud i'r carped bara mwy.

Celfi, Dodrefn Meddal a Gosodiadau

Canllawiau Ansawdd

Mae hyn yn cynnwys celfi sydd wedi'i osod ac sy'n rhydd, llenni a rheiliau, clustogau, offer gwresogi a gosodiadau goleuadau.

Un Seren

- Darpariaeth gynnil ond digonol o gelfi, dodrefn meddal a gosodiadau, o ran ansawdd ac amrywiaeth; heb ei baru'n dda iawn.
- Gall y llenni fod heb leinin, ond dylent gwrdd yn y canol.
- Gallai'r gosodiadau golau a gwresogi fod o ansawdd gweddol.

Dwy Seren

- Mwy o ddarpariaeth o gelfi a all fod wedi dyddio neu dreulio, ond sy'n gadarn.
- Bydd y llenni o ansawdd gwell, byddant yn lân a byddant yn rhedeg yn ddirwystr.
- Gosodiadau golau a gwresogi o safon eithaf da.

Tair Seren

- Byddai darpariaeth ddigonol yn cynnwys bwrdd gwisgo a chadair, droriau ac ati, ym mhob ystafell.
- Lle i hongian dillad mewn cwpwrdd dillad neu ardal benodol â llenni ym mhob ystafell wely.
- Gosodiadau o ansawdd da, mewn cyflwr da.
- Paru da.
- Mae faint o gelfi sydd yn gymesur â'r lle sydd ar gael.

Pedair Seren

- Dylai fod cyfleuster bwrdd gwisgo, cwpwrdd dillad a droriau ym mhob ystafell wely.
- Celfi o safon uchel, nid o reidrwydd yn newydd, ond yn cynnig cryn dipyn o gysur a lle.
- Bydd y llenni yn llawn, gydag addurniadau ychwanegol fel clymau o bosibl.
- Gosodiadau golau a gwresogi o ansawdd da iawn ac mewn cyflwr da iawn.

Pum Seren

- Hen gelfi, celfi copi neu gelfi modern o'r radd flaenaf.
- Mae'r celfi wedi'i baru'n arbennig o dda ac mae'r dodrefn meddal o'r radd flaenaf.
- Gall fod nodweddion ychwanegol e.e. clustogau ac ati.

- Gorchuddion ffenestri o ansawdd ardderchog sydd wedi'u gosod yn dda, sydd â digon o orchudd ac sy'n ddigon llydan.
- Gosodiadau golau a gwresogi o safon uchel ac mewn cyflwr arbennig.

Gwelyau

Canllawiau Ansawdd

Mae hyn yn cynnwys ansawdd a chyflwr pennau gwely neu rywbeth cyfatebol, gwaelod gwelyau, matresi a fframiau.

Un Seren

- Gwelyau a matresi o ansawdd derbyniol sydd â phen gwely neu sydd heb ben gwely.

Dwy Seren

- Gwelyau o ansawdd eithaf da ond gall matresi fod yn denau a gall y gwaelod fod yn isel.

Tair Seren

- Gwely cyfforddus o ansawdd da, matres digon caled a gwaelod cadarn.
- Gall gwaelod a phennau gwelyau, os ydynt yn cael eu darparu, fod yn fathau hŷn, ond mewn cyflwr da.

Pedair Seren

- Matresi caled o ansawdd da iawn sydd â gwaelod sbrings o ansawdd.
- Gwaelod a phennau gwelyau mewn cyflwr da iawn.

Pum Seren

- Gwely o'r radd flaenaf e.e. matres sbrings a gwaelod o safon uchel.
- Os ydynt yn cael eu darparu, bydd pennau gwely yn gysurus iawn.

Cyngor

Dylid newid matresi sy'n suddo. Dylid troi matresi fel eu bod yn para'n hirach.

Ystafelloedd gwely orielog:

- Os bydd eiddo ond yn addas i ddau unigolyn, gellir ennill unrhyw radd. Rhaid hysbysebu'r ffaith mai ystafell wely orielog sydd ar gael yn y llawlyfr.
- Os bydd yr eiddo yn addas i fwy na dau westai, a bod ystafell wely orielog, rhaid hysbysebu hyn yn glir yn y llawlyfr. Pedair Seren fyddai'r radd fwyaf fyddai'n bosibl. Y rheswm dros hyn yw'r diffyg preifatrwydd, cadw golau allan, a sŵn yn torri ar draws.

Dillad Gwely a Llieiniau

Canllawiau Ansawdd

Mae hyn yn edrych ar ansawdd a chyflwr gobenyddion, duvets, blancedi a chynfasau,

gorchuddion gobenyddion a matresi, falansiau a blancedi.

Un Seren

- Gwelyau taclus sydd â chynfasau lliain glân o ansawdd derbyniol a gorchuddion gwely mewn cyflwr da.
- Digon o ddillad gwely, gan gynnwys digon o flancedi a/neu duvets.
- Os darperir dillad gwely ychwanegol, dylent fod yn lân ac yn ffres, ac yn ddelfrydol, wedi'u lapio i'w cadw'n lân.
- Efallai y bydd gobenyddion yn cynnwys llai o lenwad ac yn llai caled, ac o ffeibrau artiffisial yn bennaf.

Dwy Seren

- Efallai fod gwelyau wedi'u defnyddio'n dda ond ni fydd unrhyw dyllau na rhwygau, a dylent gyfateb.
- Bydd gobenyddion yn fwy plwmp.

Tair Seren

- Gwelyau taclus sydd â digon o ddillad gwely a chynfasau lliain o ansawdd da, ac sy'n mynd gyda'i gilydd.
- Gall fod falansiau ar ddifanau.
- Bydd gobenyddion a dillad gwely ychwanegol ar gael.
- Dylai gobenyddion fod yn sylweddol.

Pedair Seren

- Cynfasau lliain o ansawdd da iawn sy'n mynd gyda'r dillad gwely a'r ystafell. Gellir cynnig dewis o obenyddion e.e. plu neu ffeibr gwag.
- Gellir disgwyl gorchuddion gobenyddion ar y lefel hon.
- Gall falansiau fod o safon uchel ac wedi'u pletio.

Pum Seren

- Llieiniau glân sy'n mynd gyda'i gilydd. Dewis o ddillad gwely, e.e. cwrlid neu flanced dew, neu duvet sydd â'r tog priodol. Byddant i gyd o'r radd flaenaf, ac yn mynd gyda décor a dodrefn meddal arall yr ystafell wely e.e. gwelyau sengl â duvet dwbl.
- Byddai disgwyl gweld gorchuddion matresi wedi'u padio a gorchuddion gobenyddion o ansawdd.
- Efallai y cynigir dewis o obenyddion sydd o wahanol drwch a llenwad.
- Os defnyddir duvet, yna dylid ystyried eu maint.

Arferion Da ym maes Cynaliadwyedd

Cedwir blancedi mewn bagiau di-lwch wedi'u selio a chânt eu storio'n briodol.

Goleuadau, Systemau Gwresogi a Dulliau Awyru

Canllawiau Ansawdd

Mae hyn yn ymwneud ag ansawdd a darpariaeth goleuadau a gwres, ac a yw'n ddigonol ar gyfer maint yr ystafell a'r gofynion e.e. darllen yn y gwely, gosod colur, sychu gwallt wrth fwrdd gwisgo.

Dylai fod cydbwysedd o olau naturiol ac artiffisial lle y bo'n briodol.

Bydd angen sicrhau bod digon o wres ar gyfer maint yr ystafell ac i ymdopi â gofynion gwahanol westeion.

Un Seren

- Digon o oleuadau mewn mannau priodol ar gyfer defnydd ymarferol.
- Lefelau gwresogi sy'n briodol i faint ystafelloedd, ac efallai nad yw hyn yn awtomatig nac yn sefydlog.

Dwy Seren

- Lefelau goleuo eithaf da – gall hyn fod drwy brif olau ac un golau arall, â watedd uwch na'r isafswm o 140 wat.
- Gall y system wresogi fod yn awtomatig neu gael ei rheoli â thermostat.

Tair Seren

- Goleuadau mewn mannau da, gan oleuo'r lle yn effeithiol, a gellir eu rheoli'n hawdd gyda'r nos.
- Lefelau effeithiol o wres sy'n darparu tymheredd a gynhelir.

Pedair Seren

- Lefelau da iawn o olau a rheolyddion hawdd eu cyrraedd, yn enwedig wrth ymyl y gwely.
- Gellir defnyddio gwahanol fathau o oleuadau e.e. goleuadau wal a lampiau.
- System wresogi sefydlog, awtomatig sydd wedi'i gosod yn gywir ac y gellir ei rheoli â thermostat.

Pum Seren

- Goleuadau o ansawdd ardderchog mewn mannau da, gan oleuo'r lle yn ardderchog at ddibenion amrywiol e.e. darllen ac wrth y bwrdd gwisgo.
- Byddai prif olau y gellir ei reoli o'r drws a'r gwely yn ddymunol.
- Gall y gwestai reoli'r lefelau gwres ar unrhyw adeg o'r dydd a'r nos. Efallai na fydd rhai

mathau hŷn o wresogyddion stôr yn bodloni'r gofyniad hwn. Byddai system aerdymheru yn golygu bod modd rheoli'r tymheredd drwy gydol y flwyddyn.

Cyngor

Gallai lampau wrth ymyl y gwely sydd â rheolyddion sydd o'r golwg fod yn anodd eu defnyddio yng nghanol y nos, a allai hefyd fod yn wir am lamplenni bach lle nad oes fawr ddim lle i gyrraedd y switsh. Os oes llawer o lenni o amgylch gwely e.e. gwely pedwar poster, yna gallai'r golau o'r lamp wrth ymyl y gwely gael ei guddio, felly efallai y bydd angen ystyried ei leoliad yn fwy.

Rhoddir mwy o farciau lle cymerwyd gofal i ddarparu golau ym mhob rhan o'r ystafell lle y gall fod ei angen, e.e. wrth y bwrdd gwisgo ac wrth y cwpwrdd dillad neu'r tu mewn iddo.

Dylai fod gan oleuadau gwelyau bync wifrau caled er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel.

Gofod, Cysur a Hwylustod

Canllawiau Ansawdd

Mae hyn yn ystyried y defnydd o le a'r ffordd y mae'r adeilad wedi'i gynllunio i fod mor gyfleus a hwylus â phosibl i'r gwesteion. A oes angen symud celfi i ddefnyddio'r cyfleusterau? A oes rhywle i gadw bagiau?

Un Seren

- Gellir symud o gwmpas yn gymharol ddirwystr heb fod y nenfwd na thrawstiau yn rhy isel.
- Gall celfi mawr ddominyddu ystafell a golygu ei bod hi'n anos ei defnyddio.
- Ni ddylai swm o'r tu allan amharu ar ystafelloedd a gall fod angen darparu gwydr dwbl er mwyn sicrhau nad yw hyn yn digwydd mewn lleoliadau trefol.

Dwy Seren

- Lefelau eithaf da o gysur ac ystod gyfyngedig o gelfi.
- Gellir defnyddio cyfleusterau yn hawdd ac nid ydynt yn edrych yn anniben.

Tair Seren

- Digon o le i symud o gwmpas yn ddirwystr a lefel dda o gysur.
- Gellir defnyddio cyfleusterau yn hawdd.
- Celfi sydd wedi'i leoli'n gyfleus at ddefnydd ymarferol.
- Digon o le i fynd i mewn i wely dwbl o'r ddwy ochr.

Pedair Seren

- Cynllun y celfi wedi'i ystyried yn ofalus er mwyn gwneud y gorau o'r lle gwag sydd ar gael. Gall yr ystafelloedd fod yn llai, ond mae'r gwaith cynllunio gofalus yn golygu eu bod yr un mor ddefnyddiadwy.
- Digonedd o le i fynd i mewn i wely dwbl o'r ddwy ochr.

Pum Seren

- Dylai'r ystafell wely fod yn ddigon o faint i allu darparu'r holl gelfi ystafell wely priodol a gadael digon o le o hyd i symud o gwmpas wrth ddefnyddio'r cyfleusterau hyn.
- Man i gadw bagiau heb wneud yr ystafell yn anniben a bod yn y ffordd. Nid oes angen i hyn fod mewn ystafell wely.
- Defnydd hawdd a chyfleus o gyfleusterau, e.e. gallu cyrraedd socedi trydan ac ati.
- Digon o le i fynd i mewn i wely dwbl o'r ddwy ochr.
- Dim sŵn yn amharu ar westeion.

Cyngor

Wrth gynllunio ystafell wely, ystyriwch yn ofalus a fydd gormod o welyau yn amharu ar faint o le sydd ar gael i'r gwesteion. Efallai drwy gymryd llai o westeion yn gyffredinol y gallwch gynnig profiad gwell, oherwydd byddant yn gallu defnyddio'r ystafelloedd yn gysurus.

Ystyriwch y ffaith nad yw gwesteion bob amser yn dadbacio a/neu efallai y bydd angen rhywle arnynt i gadw eu bagiau.

Nid yw ystafelloedd gwely orielog mewn unedau ar gyfer mwy na 2 westai yn debygol o sgorio'n uchel yn yr adran hon oherwydd diffyg preifatrwydd a sŵn, golau ac arogleuon sy'n amharu arnynt.

Dylai fod digon o socedi mewn mannau strategol at bob defnydd posibl. Bydd hyn yn cynnwys socedi trydan ar gyfer goleuadau, clociau larwm wrth ymyl y gwely, ac un wrth ddrych i'w ddefnyddio gyda sychwr gwallt ac ati. Dylai fod modd cyrraedd y rhain yn hawdd a golygu nad oes angen defnyddio plygiau addasu na cheblau estyn, a allai fod yn beryglus.

Dylai fod gan oleuadau gwelyau bync wifrau caled er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel.

Arferion Da ym maes Hygyrchedd

Dylai gobenyddion a dillad gwely heb blu fod ar gael ar gais os nad ydynt yn cael eu darparu.

Mae celfi sy'n sefyll ar eu pen eu hunain, a gwelyau 'Zip and Link', yn fodd i drefnu'r ystafell mewn ffordd fwy hyblyg, sy'n angenrheidiol

weithiau er mwyn darparu ar gyfer gofalwr sy'n teithio gyda pherson anabl neu er mwyn i berson â nam ar ei olwg allu symud o gwmpas yr ystafell.

Ceisiwch osgoi carpedi dwfn a all wneud i rywun faglu neu ei gwneud hi'n anodd i ddefnyddiwr cadair olwyn symud o gwmpas.

Dylai fod blociau ar gael er mwyn gallu addasu uchder gwelyau.

Dylid sicrhau bod digon o le yn yr ystafell wely i gerdded o gwmpas heb daro yn erbyn celfi. A yw'r ffenestri a'r llenni o fewn cyrraedd eich gwesteion, ac a yw'n hawdd eu hagor a'u cau?

Dylai fod modd addasu lefelau'r goleuadau gan ddefnyddio switsh pylu a/neu dylai lampau ychwanegol fod ar gael ar gyfer bwrdd erchwyn gwely/bwrdd gwisgo.

I gynorthwyo pobl â nam ar eu golwg, dylech ystyried cael fframiau drysau mewn lliw sy'n cyferbynnu â lliw'r wal. Dylid osgoi gorffeniadau sgleiniog iawn.

Dylid sicrhau bod pob gwestai yn gwybod sut i arddangos isdeitlau ar y teledu gan ddefnyddio'r teclyn rheoli o bell. Bydd hyn o fudd i westeion â nam ar eu clyw a hefyd i westeion sy'n siarad ieithoedd tramor.

Dylai ystafell wely fod ar gael ar y llawr gwaelod lle bo modd.

3.9 Ystafelloedd Ymolchi a Thoiledau

Addurno

Canllawiau Ansawdd

Mae hyn yn cyfeirio at ansawdd a chyflwr décor y waliau a'r nenfydau, gan gynnwys teils, growt a seliwr.

Un Seren

- Décor ymarferol heb fawr ddim yn cyfateb.

Dwy Seren

- Ansawdd a chyflwr y décor yn eithaf da, ond gall fod rhai olion traul i'w gweld.

Tair Seren

- Décor ymarferol sydd wedi'i gynnal a'i gadw'n dda; gorchuddion waliau a nenfydau sydd wedi'u gosod yn dda. Maent i gyd mewn cyflwr da.

Pedair Seren

- Gall yr eiddo fod wedi'i ailaddurno'n ddiweddar ond ni fydd o'r ansawdd gorau, neu gall fod o ansawdd ardderchog ond ei fod ychydig yn hen.

Pum Seren

- Dylunio mewnol o'r radd flaenaf.
- Ôl proffesiynol i bob agwedd ar y gwaith addurno.
- Gorffeniad waliau o'r radd flaenaf; teils, growt a seliwr sydd wedi'u gosod yn dda, ac sydd o'r radd flaenaf.
- Defnydd deniadol o addurniadau, lle y bo'n briodol.

Cyngor

Nid oes rhaid bod y waliau wedi'u teilsio i gyd (neu wedi'u gorchuddio â rhywbeth cyfatebol), ond dylai'r ardaloedd sy'n dod i gysylltiad â dŵr fod wedi'u teilsio.

Dylech bob amser gynnal a chadw'r growt a'r seliwr fel nad yw'n colli lliw ac yn edrych yn fudr. Argymhellir defnyddio seliwr, sy'n diogelu rhag llwydni yn hirdymor.

Lle y bo'n bosibl, dylai pibellau gael eu boccio i mewn fel ei bod hi'n hawdd eu glanhau a'u cadw'n daclus.

Lloriau

Canllawiau Ansawdd

Mae hyn yn cynnwys ansawdd a chyflwr carpedi, lloriau finyl, lloriau pren, laminad a theils seramig. Cynghorir lloriau dilithrig mewn ystafelloedd ymolchi.

Un Seren

- Lloriau dilithrig ymarferol sy'n ddigon cysurus dan draed.

Dwy Seren

- Lloriau o ansawdd eithaf da. Ni ddylai teils fod wedi'u difrodi fawr ddim.

Tair Seren

- Lloriau o ansawdd da sydd mewn cyflwr da ac sy'n gyfforddus dan draed.

Pedair Seren

- Lloriau o ansawdd da iawn, ond nid o reidrwydd yn newydd. Rhywfaint o ôl traul neu ansawdd nad yw cystal ond mewn cyflwr fel newydd.

Pum Seren

- Lloriau o'r radd flaenaf, sydd mewn cyflwr ardderchog. Dim arwyddion o draul go iawn ac wedi'u gosod yn broffesiynol.

Cyngor

Er bod carpedi yn gynnes dan draed, efallai nad dyma fydd y math gorau o lawr am resymau hylendid, a gellir gweld difrod dŵr.

Darnau Gosod, Gosodiadau ac Offer Ymolchfa

Canllawiau Ansawdd

Mae hyn yn cynnwys y tapiâu, plygiau, pennau cawod, drychau, sgrin/llenni cawod, rheiliau tywelion, pwyntiau rhesel, gosodiadau golau a gwres, ffaniau echdynnu, offer ymolchfa (bath, cawod, toiled, basn a bidet), tywelion, llenni a bleinds.

Un Seren

- Gosodiadau o ansawdd derbynol.
- Gorchuddion ffenestri priodol, sydd wedi'u gosod yn gywir.
- Pwysedd dŵr digonol a draenio boddhaol at ddefnydd ymarferol o'r cyfleusterau.
- Arwyneb gwastad ar gael ar gyfer eiddo'r gwesteion.

Dwy Seren

- Gosodiadau o ansawdd eithaf da, ond gallant fod ychydig yn hen ffasiwn neu wedi treulio.
- Efallai y bydd bath haearn bwrw wedi colli ei sglein, ond mae'r enamel mewn cyflwr da o hyd.

Tair Seren

- Offer o ansawdd da, sy'n cyfateb, ac sydd wedi'u gosod yn dda.
- Offer ymolchfa a bath neu gawod sy'n mynd gyda'i gilydd.
- Gorchuddion ffenestri sydd wedi'u gosod yn dda ac sy'n ddigon llydan ac uchel i orchuddio'r ffenestr gyfan.
- Digonedd o le ar y silffoedd i gadw eiddo gwesteion.
- Pwynt rhesel penodol a golau wrth ymyl drych.

Pedair Seren

- Ar y cyfan ceir gosodiadau o safon uchel drwy'r eiddo, a dim ond ychydig o draul sydd. Bath o faint da. Sgrin cawod neu lenni trwm o safon uchel.
- Mae holl offer ymolchfa mewn cyflwr da, heb unrhyw graciau, ac nid oes dim byd wedi colli ei sglein.

Pum Seren

- Darperir bath a chawod, ac mae'r darnau gosod a gosodiadau o safon uchel, e.e. ciwbiclau cawod neu sgriniau cawod, a chawodydd a reolir gan thermostat. Ceir basn ymolchi maint llawn mewn ystafell wely neu en suite. Offer hawdd ei ddefnyddio.
- Gorchuddion ffenestri o safon ardderchog sydd wedi'u gosod yn dda, sydd â digon o orchudd ac sy'n ddigon llydan.

- Digonedd o le ar y silffoedd i gadw eiddo gwesteion, ac maent yn gyfleus i'w defnyddio.

Cyngor

Bydd yr asesiad o gosodiadau ystafelloedd ymolchi yn ystyried eu hansawdd a'u cyflwr cynhenid. Bydd rheiliau tywelion neu silffoedd plastig simsan yn sgorio llai na gosodiadau pren, metel neu seramig o safon uchel. Fel arfer, bydd gosodiadau sy'n mynd gyda'i gilydd yn cael sgôr uwch na chymysgedd o arddulliau gwahanol.

Bydd sgrin cawod gadarn sydd wedi'i osod yn dda yn sgorio mwy na llenni plastig tenau sy'n dueddol o lynu wrth westai yn y gawod. Os na fydd sgrin cawod wedi'i gosod yn dda, neu ei bod mewn man lletchwith sy'n ei gwneud hi'n anodd cyrraedd y tapiâu neu reolyddion y gawod, yna caiff y marc ei ostwng yn briodol. Byddai bath haearn bwrw cadarn yn cael sgôr uwch na bath plastig rhad sy'n crecian ac yn symud o gwmpas. Os bydd arwyneb y bath wedi colli ei sglein, neu ei fod wedi'i grafu neu ei farcio bydd yn sgorio llai.

Yn yr asesiad, rhoddir credyd am ddarparu bachau o ansawdd da ar ddrysau, silffoedd neu arwynebau eraill sydd mewn man cyfleus i gadw nwyddau ymolchi a chyfarpar. Rhaid ystyried faint o le sydd ar silffoedd a rheilen dywelion os oes mwy o westeion yn gallu aros mewn eiddo. Gellir darparu rheilen dywelion ychwanegol mewn ystafelloedd gwely. Dylai'r drychau fod mewn man sy'n addas i westeion o bob taldra fwy neu lai.

Os bydd cawod dros fath, yna dylid darparu dysgl sebon/silff ar uchder sefyll, ac ar uchder eistedd yn y bath. Ystyriwch faint ciwbiclau cawod – a ydynt yn ddigon o faint i westeion mwy o faint?

Goleuadau, Systemau Gwresogi a Dulliau Awyru

Canllawiau Ansawdd

Mae hyn yn ymwneud ag ansawdd a darpariaeth goleuadau a gwres, ac a yw'n ddigonol ar gyfer maint yr ystafelloedd ymolchi. Os nad oes digon o wres a/neu awyru bydd anwedd. Dylai fod cydbwysedd o olau naturiol ac artiffisial lle y bo'n briodol.

Un Seren

- Lefelau gwresogi sy'n briodol i faint yr ystafell. Dylai hyn fod yn sefydlog er diogelwch.
- Digon o oleuadau mewn mannau priodol ar gyfer defnydd ymarferol.
- Efallai mai dim ond ffenestr a ddarperir.

Dwy Seren

- Bydd lefel dda o wres a gellir ei reoli'n awtomatig.
- Lefelau goleuo eithaf da. Mwy o watiâu na'r isafswm (140 wat).

Tair Seren

- Lefelau effeithiol o wres sy'n darparu tymheredd a gynhelir.
- Goleuadau mewn mannau da, gan oleuo'r wyneb yn effeithiol.

Pedair Seren

- System wresogi a reolir â thermostat sydd wedi'i gosod yn gywir.
- Fel arfer, byddai disgwyl gweld ffan echdynnu a ffenestr sy'n agor.
- Lefelau da iawn o olau, yn enwedig dros neu wrth ymyl drych. Gall fod gwahanol fathau o oleuadau.

Pum Seren

- Gellir rheoli lefelau gwres bob amser. Efallai na fydd gwresogyddion stôr yn bodloni'r gofyniad hwn.
- Ffan echdynnu wedi'i osod, yn ogystal â ffenestr.
- Goleuadau o'r radd flaenaf mewn mannau da, gan oleuo'r lle yn effeithiol.

Cyngor

Mae'n bwysig gosod goleuadau yn y man iawn; dylai'r ardal o amgylch y basn ymolchi a'r drych fod wedi'i goleuo'n dda. Os bydd siâp anarferol i'r ystafell ymolchi, yna dylid ystyried lleoliad goleuadau.

Mae goleuadau dros y bath a/neu'r gawod yn ddefnyddiol dros ben ac yn ei gwneud hi'n fwy diogel eu defnyddio.

I gael y marciau uchaf, dylai'r gwres fod yn awtomatig a chael ei reoli gan thermostat.

Ni ellir dibynnu ar westeion i agor ffenestri ystafelloedd ymolchi, yn enwedig pan fydd yn oer, felly byddai'n well ychwanegu ffan echdynnu. Caiff anwedd a llwydni eu hachosi gan gyfuniad o ddiffyg gwres ac awyru, a bydd darparu gwres cefndirol a ffan echdynnu yn helpu i oresgyn hyn, yn enwedig un â theclyn monitro lleithder (wrth i lefelau lleithder gynyddu bydd y ffan yn dod ymlaen).

Tyweliau a Phethau Ymolchi

Canllawiau Ansawdd

Mae hyn yn cynnwys tywelion personol ac unrhyw nwyddau ymolchi a ddarperir i'r gwesteion. Gallai fod yn unrhyw beth o far

sebon i ystod lawn, a phethau ychwanegol fel cap cawod, peli cotwm a ffyn cotwm.

Un Seren

- Nid yw matiau papur yn dderbyniol.
- Efallai y bydd y tywelion yn fach ac yn denau, ond dylent fod mewn cyflwr digon da i'w defnyddio o hyd.
- Telir sylw arbennig i lendid a hylendid teclynnau sebon hylif lle maent ar gael.

Dwy Seren

- Fel Un Seren.

Tair Seren

- Tywelion digon o faint, sy'n mynd gyda'i gilydd, sydd o ansawdd da ac mewn cyflwr da.
- Sebon, siampŵ a gel bath/cawod o ansawdd da ar gael.
- Pethau ymolchi, fel brwsh dannedd a rhesel blastig, ar gael, am dâl efallai, os bydd gwestai wedi eu hanghofio.

Pedair Seren

- Amrywiaeth o dywelion o ansawdd da iawn, sy'n amsugno dŵr ac yn feddal, ac ystod dda o bethau ymolchi o ansawdd i westeion.

Pum Seren

- Amrywiaeth o dywelion, sy'n cynnwys rhai bath, gŵn a chadachau wyneb o ansawdd ardderchog ac mewn cyflwr ardderchog.
- Ystod ardderchog o bethau ymolchi moethus i westeion (er enghraifft, sebon dwylo, sebon bath, siampŵ, geliau, hufen corff, hancesi papur ac ati).

Gofod, Cysur a Hwylustod

Canllawiau Ansawdd

Mae hyn yn ystyried y defnydd o le a'r ffordd y mae'r ystafell wedi'i chynllunio i fod mor gyfleus a hwylus â phosibl i'r gwesteion; gyda diogelwch yn brif ystyriaeth. Ni fydd y lle yn hwylus i'w ddefnyddio os bydd gormod o westeion yn rhannu un ystafell ymolchi, yn enwedig lle mae'r toiled yn yr ystafell ymolchi neu dim ond un bath sydd ar gael.

Un Seren

- Digon o le a chynllun er mwyn caniatáu defnydd ymarferol o'r holl gyfleusterau.
- Cyn lleied o sŵn gan y plymio.

Dwy Seren

- Lefelau eithaf da o gysur ac ystod gyfyngedig o osodiadau. Gellir defnyddio cyfleusterau yn hawdd.
- Hawdd cyrraedd y bath, y gawod a'r toiled.

Tair Seren

- Digon o le i gyrraedd a defnyddio'r cyfleusterau yn hawdd.

Pedair Seren

- Lleoliad y gosodiadau ac offer ymolchfa wedi'i gynllunio'n ofalus er mwyn sicrhau cymaint â phosibl o gyfleustra a hwylustod.

Pum Seren

- Digon o le i symud o gwmpas yn ddirwystr ac yn hawdd cyrraedd y cyfleusterau.
- Cynllun cyfleus â hen ddigon o le.

Cyngor

Ystyriwch nifer y gwesteion, am faint o amser y maent yn aros, a'r pethau ymolchi fydd ganddynt wrth bennu faint o le sydd ei angen ar silffoedd – a yw'n ddigon?

Arferion Da ym maes Hygyrchedd

Gall darparu cyfarpar megis seddi bath, codwyr uchder seddi toiled a chadeiriau cawod fod yn fuddiol i lawer o westeion, yn ogystal â rheiliau cynnal ar gyfer y toiled a'r bath/cawod.

Er mwyn cynorthwyo pobl â nam ar eu golwg, dylai lliw'r toiled, y sinc a'r bath gyferbynnu â lliw waliau'r ystafell ymolchi a'r llawr, a dylai'r tywelion hefyd gyferbynnu mewn rhyw ffordd. Dylech hefyd ystyried cael ffrâm ddrws mewn lliw cyferbyniol.

Wrth ailwampio eich ystafell ymolchi, dylai fod falf cymysgu ar bob un o osodiadau'r cyflenwad dŵr poeth, sy'n cyfyngu'r dŵr i uchafswm o 41C er mwyn atal sgaldio.

Hefyd, dylid darparu tapiau lifer neu atodion lifer ar y basn ymolchi a'r bath, a'r gawod yn ddefnyddol hefyd. Er budd pob defnyddiwr, mae'n bwysig bod lloriau ystafelloedd ymolchi yn rhai gwrthlithro.

Arferion Da ym maes Cynaliadwyedd

Gellir defnyddio dyfeisiau arbed dŵr fel "Hipos" mewn sestonau toiled a gall darparu cyfleusterau cawod helpu i ddefnyddio llai o ddŵr.

I leihau gwastraff, ystyriwch ddefnyddio sebon hylif yn lle bariau sebon sydd wedi'u lapio'n unigol.

3.10 Cegin

Addurno

Canllawiau Ansawdd

Mae'r asesiad o addurniadau walïau, nenfydau a gwaith pren yn edrych ar ansawdd gorffeniadau walïau, y gwaith gosod a'u cyflwr. Mae hyn yn cynnwys sblasgefnau, teils, growt a seliwr. Hefyd, asesir darpariaeth ac ansawdd lluniau a phrintiau ac addurniadau walïau yma. Mewn cegin, mae hylendid yn hollbwysig, a bydd angen ystyried pa mor briodol yw deunyddiau a gorffeniadau yma. Nid ystyrir chwaeth bersonol yr asesydd.

Un Seren

- Décor ymarferol, gan gynnwys y walïau a'r nenfydau.
- Fawr ddim marciau, sblashis na saim, nac arwyddion eraill o goginio.

Dwy Seren

- Décor o ansawdd da ac mewn cyflwr da, er y gall fod rhai arwyddion o draul.

Tair Seren

- Décor ymarferol sydd wedi'i gynnal a'i gadw'n dda.
- Wedi'i baru'n dda a gorffeniadau addas a phara ynddynt, fel teils yn yr ardaloedd gwaith.
- Dylai'r holl ddécor fod o safon dda.

Pedair Seren

- Gall yr eiddo fod wedi'i ailaddurno'n ddiweddar ond ni fydd o'r ansawdd gorau, neu gall fod o ansawdd ardderchog ond ei fod bach yn hen.

Pum Seren

- Décor o'r radd flaenaf, sydd ag ôl broffesiynol.
- Dylunio mewnol sydd wedi'i baru.
- Arwynebau a phara ynddynt, heb fawr ddim arwyddion o draul.
- Growt sy'n edrych yn newydd o hyd mewn ardaloedd wedi'u teilsio.

Cyngor

Defnyddiwch ddeunyddiau sy'n addas i cegin e.e. paent cegin ac ystafell ymolchi a fydd yn gwrthsefyll staeniau ac anwedd. Anogir defnyddio sblasgefnau o ryw fath yn enwedig wrth ffwrn, sinc, ac yng nghefn arwynebau gwaith.

Llorïau

Canllawiau Ansawdd

Mae hyn yn cynnwys ansawdd a chyflwr carpedi, llorïau finyl, llorïau pren, laminad a theils seramig. Ystyrir ansawdd gwaith gosod, yn enwedig o amgylch unedau a nwyddau gwyn.

Un Seren

- Llorïau sydd wedi'u gosod yn dda.
- Gall fod rhai olion traul i'w gweld. Dylent fod wedi'u gosod yn broffesiynol.

Dwy Seren

- Llorïau o ansawdd eithaf da, heb unrhyw rwygau, staeniau nac arwyddion o losgi.

Tair Seren

- Gwaith cynnal a chadw da iawn, hyd yn oed mewn ardaloedd prysur iawn.
- Llorïau a phara ynddynt.
- Bydd gan deils growt glân.
- Llorïau pren mewn cyflwr da.

Pedair Seren

- Llorïau o ansawdd da iawn o bosibl, ond nid o reidrwydd yn newydd a gall fod olion traul neu gallent fod o ansawdd nad yw cystal ond mewn cyflwr fel newydd.

Pum Seren

- Llorïau o'r radd flaenaf mewn cyflwr ardderchog.

Celfi a Gosodiadau

Canllawiau Ansawdd

Mae hyn yn cynnwys yr holl gosodiadau cegin o ran ansawdd a chyflwr sy'n cynnwys unedau a chypyrddau cegin, arwynebau gwaith, llenni a bleinds, gosodiadau goleuadau a gwres, ffaniau echdynnu ac unrhyw gelfi rhydd fel bwrdd cegin a chadeiriau a gosodiadau goleuadau.

Un Seren

- Efallai nad oes llawer iawn o arwynebau gwaith na lle storio ond mae'n ddigonol, gydag o leiaf un cwpwrdd neu silff i gadw bwyd.
- Bydd pob arwyneb yn gadarn a bydd drysau cypyrddau yn gweithio'n iawn.

Dwy Seren

- Digon o arwynebau gwaith a chypyrddau at ddefnydd ymarferol.
- Unedau o ansawdd eithaf da.

Tair Seren

- Digionedd o gypyrddau ac arwynebau gwaith.
- Unedau sydd wedi'u gosod yn dda ac sy'n mynd gyda'i gilydd, sydd o ansawdd da.

- Os yw'r ardal fwyta yn rhan o'r gegin, byrddau a chadeiriau o ansawdd da gyda phadin ar seddi, lle y bo'n briodol.
- Gall yr uchafswm nifer o westeion fwyta'n gysurus.

Pedair Seren

- Digonedd o arwynebau gwaith heb unrhyw annibendod na chyfarpar.
- Unedau o ansawdd da iawn, sydd wedi'u cynnal a'u cadw'n dda.
- Digon o le i storio bwyd gwesteion ac ati.

Pum Seren

- Arwynebau gwaith hael o safon uchel, a digonedd o le i storio pethau, gan gynnwys unedau llawr a wal.
- Unedau o ansawdd ardderchog, sydd wedi'u gosod yn broffesiynol.
- Os yw'r ardal fwyta yn rhan o'r gegin, byrddau a chadeiriau o ansawdd ardderchog gyda phadin ar seddi, lle y bo'n briodol.

Goleuadau, Systemau Gwresogi a Dulliau Awyru

Canllawiau Ansawdd

Mae hyn yn ymwneud ag ansawdd a darpariaeth goleuadau a gwres, ac a yw'n ddigonol ar gyfer maint y gegin. Dylai fod cydbwysedd o olau naturiol ac artiffisial lle y bo'n briodol a dylai fod yn ddigon i ddefnyddio'r ffwrn ac arwynebau gwaith yn ddiogel.

Os nad oes digon o wres a/neu awyru bydd anwedd. Mae awyru yn ffactor pwysig mewn ceginau a dylid darparu newid aer er mwyn sicrhau bod stêm ac arogleuon coginio yn diflannu, yn enwedig mewn unedau cynllun agored. Gall ffenestr agored, os yw'n gweithio'n iawn, gynnig digon o awyru.

Un Seren

- Lefelau ymarferol o olau artiffisial a/neu naturiol er diogelwch.
- Gellir benthg gwres os oes cynllun agored, ond dylai fod o lefel foddhaol serch hynny.
- Digon o awyru, drwy agor ffenestri efallai.

Dwy Seren

- Lefelau goleuo eithaf da. Mwy o watedd na'r isafswm o 140 wat.
- Bydd systemau gwresogi yn cynnig lefel dda o wres a bydd modd eu rheoli'n awtomatig.

Tair Seren

- Lefel gyffredinol dda o oleuadau, gan gynnwys yn uniongyrchol dros ardaloedd paratoi bwyd a choginio.

- Gall system awyru dda gynnwys ffaniau echdynnu.

Pedair Seren

- Lefelau da iawn o olau.
- Gall fod gwahanol fathau o oleuadau e.e. o dan unedau ar ben y prif oleuadau.
- System wresogi a reolir â thermostat sydd wedi'i gosod yn gywir.
- Gellir disgwyl cael ffaniau echdynnu a gallu agor ffenestri.

Pum Seren

- Pob ardal wedi'i goleuo'n ardderchog.
- System wresogi y gellir ei rheoli'n hawdd e.e. falf thermostatig ar reiddiaduron.
- Gall system sy'n gorfodi echdynnu gynnwys teclyn monitro lleithder.

Cyngor

Ni ellir dibynnu ar westeion i agor ffenestri ystafelloedd cegin, yn enwedig pan fo'r tywydd yn oer, felly mae'n well ychwanegu ffan echdynnu. Caiff anwedd a llwydni eu hachosi gan gyfuniad o ddiffyg gwres ac awyru, a bydd darparu gwres cefndirol a ffan echdynnu yn helpu i oresgyn hyn, yn enwedig un â theclyn monitro lleithder (wrth i lefelau lleithder gynyddu bydd y ffan yn dod ymlaen).

Offer Trydanol/Nwy

Canllawiau Ansawdd

Caiff yr holl offer trydanol a nwy a ddarperir yn y gegin ei asesu yn yr adran hon gan gynnwys ffwrn, hob, oergell ac ati. Hefyd, caiff offer trydanol bach fel cymysgwyr bwyd a chwisgiau llaw ac ati ei ystyried yma. Bydd cyfarpar fel peiriannau golchi, rhewgelloedd ac ati, nad ydynt yn y gegin, ond mewn rhan arall o'r eiddo, fel ystafell aml-bwrpas neu eiddo'r perchenogion, yn cael ei gynnwys yma.

Un Seren

- Fawr ddim yn fwy na'r hyn sy'n ofynnol, neu dim ond yr hyn sy'n ofynnol.
- Efallai y bydd rhai eitemau yn hŷn ond dylai popeth fod mewn cyflwr da ac yn gweithio.

Dwy Seren

- Gellir darparu rhai eitemau ychwanegol o gyfarpar, ond gall fod arwyddion o draul neu gallant fod wedi dyddio.

Tair Seren

- Mae'r holl gyfarpar mewn cyflwr da ac yn gweithio, e.e. nid oes unrhyw ddifrod na marciau ac ati.

Pedair Seren

- Gall fod o safon ardderchog, ond nid mewn cyflwr newydd sbon. Darperir ystod dda iawn o gyfarpar.

Pum Seren

- Ystod eang o eitemau o'r radd flaenaf a all gynnwys proseswyr bwyd ac ati.
- Gall fod ffwrn dwy lefel er hwylustod.
- Safonau uchaf o gyfarpar drwyddi draw.

Llestri, Cylyll a Ffyr a Gwydrau

Canllawiau Ansawdd

Mae hyn yn cynnwys ansawdd, cyflwr ac amrywiaeth llestri, cylyll a ffyr a gwydrau at ddibenion bwyta. Nid yw'n cynnwys offer coginio gwydr er enghraifft.

Un Seren

- Lleiafswm o ansawdd derbyniol.
- Llestri o ansawdd ymarferol trwm, sydd â'r un patrwm.
- Gall cylyll a ffyr fod yn denau, o ansawdd isel a heb eu paru.
- Amrywiaeth fach o wydrau. Efallai nad ydynt yn mynd gyda'i gilydd.

Dwy Seren

- Dylai'r llestri fynd gyda'i gilydd, ac ni ddylai fod unrhyw dolciau, staeniau na chraciau mân.
- Gall cylyll a ffyr fod yn ysgafn, ond dylent fynd gyda'i gilydd i gyd.

Tair Seren

- Cylyll a ffyr trymach, heb unrhyw arwyddion o draul.
- Digonedd o lestri, cylyll a ffyr a gwydrau ar gyfer nifer y gwesteion. Dewis rhesymol o wydrau, o ansawdd da.

Pedair Seren

- Cylyll a ffyr o ansawdd da iawn, sy'n mynd gyda'i gilydd.

Pum Seren

- Ansawdd da iawn mewn cyflwr newydd sbon neu o ansawdd ardderchog nad yw'r cyflwr yn berffaith.

Offer Cegin, Sosbenni a Chyfarpar

Canllawiau Ansawdd

Mae'r adran hon yn edrych ar ansawdd, amrywiaeth a chyflwr sosbenni, hambyrddau pobi, powlenni a dysglau coginio a gweini, a chyfarpar. Dylai'r amrywiaeth a'r ansawdd ar lefel sylfaenol gyfateb i nifer y gwesteion h.y. bydd angen sosbenni a dysglau gweini mwy o faint ar fwy o westeion ac ati.

Un Seren

- Ystod gyfyngedig o sosbenni o ansawdd derbyniol. Pob handlen yn sownd a chaeadau sy'n gweddu'n dda.
- Ystod fach o gyfarpar. Gall rhai eitemau fod yn ysgafnach neu o ansawdd cynhenid mwy sylfaenol. Efallai nad yw pethau yn mynd gyda'i gilydd.

Dwy Seren

- Sosbenni o ansawdd trymach.
- Gall fod ystod eang o gyfarpar, ond nid yw'n cyfateb i gyd.

Tair Seren

- Sosbenni o bob maint, sydd i gyd yn teimlo'n gadarn.
- Ni ddylai fod unrhyw gyfarpar plastig hen sydd wedi colli ei siâp.
- Ystod eang o gyllyll, llwyau pren ac ati.

Pedair Seren

- Gall sosbenni fod o safon uchel ond bod arwyddion o draul, neu gallent fod yn berffaith/newydd ond o ansawdd ysgafnach.
- Mwy o amrywiaeth o gyfarpar ac offer coginio o wahanol feintiau a defnydd.

Pum Seren

- Yr holl offer coginio a sosbenni o'r radd flaenaf. Dylai fod mwy o sosbenni na'r hyn sy'n ofynnol.
- Ystod eang o eitemau ychwanegol, sydd i gyd yn cyfateb, e.e. wok, gwasgwr garlleg, clorian, suddwr, giard sblashis, llwy rychog ac ati.

Gofod, Cysur a Hwylustod

Canllawiau Ansawdd

Bydd yr adran hon yn cwmpasu cynllun a dyluniad y gegin gan ystyried faint o le sydd ar gael, sy'n agwedd bwysig. Gallai fod gormod o le sy'n amharu ar y defnydd ymarferol o'r gegin e.e. mae'r cynllun yn golygu nad yw'n hawdd ei defnyddio. Ystyrir uchafswm nifer y gwesteion a faint o le sydd yn y gegin iddynt, yn enwedig os yw'r ardal fwyta yn y gegin, a bydd diogelwch yn ffactor hollbwysig.

Un Seren

- Lle cyfyngedig drwyddi draw, sy'n cynnwys lle storio, arwynebau gwaith a lle gwag. Digon o le i olchi a sychu llestri.

Dwy Seren

- Digon o le a chynllun effeithiol sy'n golygu bod modd defnyddio'r cyfleusterau yn ymarferol.

- Hawdd cyrraedd yr oergell, ffwrn a hob.
- Tystiolaeth o roi mwy o ystyriaeth i'r gwahanol dasgau a gyflawnir mewn cegin.

Tair Seren

- Digon o le i gyrraedd a defnyddio'r cyfleusterau yn hawdd.
- Digon o le i storio bwyd.

Pedair Seren

- Hawdd defnyddio'r ardal a digon o le, yn enwedig o amgylch byrddau bwyta os ydynt yn y gegin.
- Hawdd cyrraedd pob uned gan ystyried y triongl gwaith – ffwrn, oergell a sinc.
- Byddai disgwyl mwy o le os oes unedau mwy o faint a lle y gall mwy nag un person fod yn defnyddio'r gegin ar yr un pryd.

Pum Seren

- Digon o le i symud o gwmpas yn ddirwystr ac yn hawdd cyrraedd y cyfleusterau.
- Cynllun cyfleus iawn â digon o le.
- Dylai fod digon o le i storio bwyd ac ati.

Arferion Da ym maes Hygyrchedd

Dylai tegellau fod yn rhai heb gebl a bydd amrywiaeth o gwpanau/mygiau ar gael – bydd hyn yn helpu'r bobl hynny a all ei chael hi'n anodd dal cwpan.

Er mwyn helpu defnyddwyr cadair olwyn, dylai fod modd cyrraedd cymaint â phosibl o'r arwyneb gwaith a chyfarpar ar eich eistedd, e.e. hob, oergell, rhewgell a ffwrn.

Gosodwch handlenni drysau cypyrddau wal ar ymyl isaf y drws.

Darparwch gyfarwyddiadau mewn print mawr ar sut i ddefnyddio cyfarpar trydanol e.e. peiriannau golchi a sychwyr dillad. Bydd llestri sydd â lliw gwahanol i'r lliain bwrdd neu'r arwyneb yn helpu gwesteion â nam ar eu golwg.

Arferion Da ym maes Cynaliadwyedd

Atgoffwch westeion o'ch ymrwymiad fel rheolwyr i arbed ynni drwy ofyn iddynt ond defnyddio'r peiriant golchi llestri pan fo'n llawn. Gellir gwneud hyn wrth ddweud wrth westeion am drefniadau ailgylchu'r awdurdod lleol sy'n briodol ar gyfer y math o lety dan sylw, a'r rhan y mae angen iddynt ei chwarae i'ch helpu i gydymffurfio â hynny.

Wrth brynu nwyddau gwyn, ceisiwch brynu rhai sydd â label yr UE yn dangos gradd effeithlonrwydd ynni A neu B, ac wrth gyflenwi

cynhyrchion golchi llestri, prynwch y rhai sy'n ecogyfeillgar.

3.11 Cyfleusterau ychwanegol

Cyfleusterau y gellir eu darparu fel rhan o'r cyfleusterau sydd ar gael i westeion y fflat yw'r rhain. Mae'r gofynion hyn yn ddewisol ond, os caiff y cyfleusterau hyn eu darparu, caiff eu hansawdd, cyflwyniad a hwylustod eu hystyried wrth asesu'r sgôr ansawdd. Os na chânt eu darparu, ni fydd unrhyw effaith negyddol ar y radd a ddyfernir.

Golchi Dillad

Canllawiau Ansawdd

Dyma lle mae ystafell golchi dillad benodol y tu allan i'r eiddo (gan gynnwys ystafell golchi dillad y perchenogion) sydd â chyfarpar golchi, sychu a smwddio dillad, a all gael ei rhannu â'r perchenogion neu eiddo hunanddarpar eraill.

Un Seren

- Dylai'r holl gyfarpar fod yn gweithio.
- Amgylchedd gwaith ymarferol.
- Cyfarwyddiadau syml ar sut i ddefnyddio'r cyfarpar.
- Gall yr oriau agor fod yn gyfyngedig.

Dwy Seren

- Peth tystiolaeth o draul.
- Waliau a lloriau wedi'u gorffen i safon resymol.
- Cyfarpar o ansawdd mwy domestig.
- Gall y cyfarwyddiadau fod yn fanylach.

Tair Seren

- Digon o gyfarpar i sicrhau defnydd hwylus.
- Eiddo mewn cyflwr addurniadol da. Safonau cadw tŷ da heb unrhyw annibendod.
- Gall y cyfarpar fod o safon broffesiynol neu ddomestig.
- Mae'r oriau agor yn briodol i'r math o gyfleuster a'i swyddogaethau e.e. maint ac arddull.

Pedair Seren

- Digionedd o gyfarpar da iawn sydd uwchlaw'r gymhareb peiriannau i unedau.
- Gallai gynnwys ardal hongian dan do ar gyfer cotiau ac esgidiau gwlyb.
- Gall fod ar agor 24 awr y dydd – a all fod drwy allwedd ac ati neu oriau agor estynedig i ddiwallu anghenion y cwsmer.

Pum Seren

- Safle sydd â phopeth sydd ei angen mewn cyflwr addurniadol ardderchog, a chyrrhaeddir safon uchel o lendid.
- Cynllun da iawn sydd wedi ystyried pa mor hawdd yw hi i ddefnyddio'r holl gyfarpar.
- Darperir cyfarpar o'r radd flaenaf ac mae cyfarwyddiadau clir ar sut i'w ddefnyddio. Gall yr amrywiaeth o gyfarpar gynnwys: Peiriant golchi, sychwr dillad, sychwr sbin, cyfleusterau smwddio, cyfleusterau golchi dwylo ac ati.
- Mynediad 24 awr – a all fod drwy allwedd ac ati.

Arferion Da ym maes Hygyrchedd

Gellir gwella mynediad drwy osod mynedfa gwastad/ramp sydd ag agoriad drws 80cm o leiaf a lloriau a deunyddiau glanhau sy'n sicrhau na fydd neb yn llithro.

Arferion Da ym maes Cynaliadwyedd

Wrth brynu peiriant golchi neu sychwr dillad, ceiswch brynu un sydd â gradd ynni UE A neu B.

Hamdden

Canllawiau Ansawdd

Gall hyn gynnwys pwll nofio, campfa neu sawna. Nid oes rhaid darparu unrhyw un o'r rhain ac ni chaiff gweithredwyr eu cosbi os nad oes ganddynt hwy, ond byddant yn rhan o'r asesiad lle maent ar gael.

Un Seren

- Argaeledd cyfyngedig o ran cyfleusterau hamdden a mynediad.
- Mae'r holl gyfarpar mewn cyflwr diogel.

Dwy Seren

- Dylai'r cyfleusterau fod o ansawdd eithaf da a bod yn gweithio.

Tair Seren

- Gall arbenigo mewn un math o weithgaredd i safon dda.
- Mae'r holl gyfleusterau a'r cyfarpar mewn cyflwr da.
- Mae'r oriau agor yn briodol i'r math o gyfleuster.

Pedair Seren

- Ystod ehangach o gyfleusterau.
- Cyfleusterau o safon dda iawn, yn lân ac wedi'u cynnal a'u cadw'n dda.
- Gall gynnwys ystafelloedd newid lle y bo'n briodol.

Pum Seren

- Cyfleusterau o'r radd flaenaf a chyfarpar heb ei ail.
- Oriau agor estynedig i ddiwallu anghenion y cwsmer.

Siop/Bar/Bwyty

Canllawiau Ansawdd

Nid oes rhaid cael y rhain, ond lle maent ar gael e.e. eiddo hunanddarpar mewn parciau carafanau, byddant yn rhan o'r asesiad.

Siop

Un Seren

- Oriau agor i ddiwallu anghenion y cwsmer. Gall fod yn gyfleuster rhannol â derbynfa. Popeth mewn cyflwr da a safon dda o lendid.

Dwy Seren

- Stoc a maint siop cyfyngedig. Cyfleuster eithaf da yn gyffredinol sy'n edrych yn daclus.

Tair Seren

- Mewn man da ar y cyfan, a stoc dda o eitemau i gwsmeriaid.
- Ffabrig a décor mewn cyflwr da a safonau cadw tŷ da.
- Mae'r oriau agor yn briodol i'r math o gyfleuster a'i swyddogaethau e.e. math o nwyddau a'u hamrywiaeth.

Pedair Seren

- Mae'r tu mewn a'r cyfarpar mewn cyflwr da iawn. Tystiolaeth o sylw at fanylder, o ran glendid.

Pum Seren

- Siop wedi'i chyflenwi'n dda gydag ystod gynhwysfawr o nwyddau, yn daclus ac fel pin mewn papur, ac wedi'i haddurno i safon ardderchog.
- Oriau agor estynedig i ddiwallu anghenion y cwsmer.

Bar/bwyty

Un Seren

- Cyfleuster i brynu prydau/byrbrydau/diodydd ar adegau penodol.
- Gall fod nifer gyfyngedig o seddi.
- Ystod gyfyngedig o fwyd a diod ar gael.

Dwy Seren

- Digon o seddi ar gyfer y rhan fwyaf o westeion. Cyflwr ac ansawdd cyffredinol yn eithaf da.

Tair Seren

- Safonau addurno a chadw tŷ da.

- Digon o seddi ar gyfer y nifer tebygol o westeion.
- Ystod dda o fwyd a diod ar gael.
- Oriau agor yn briodol i'r math o gyfleuster a'i swyddogaethau e.e. maint ac arddull.

Pedair Seren

- Eiddo cyfleus, wedi'i ddylunio'n dda.
- Wedi'i addurno i safon dda iawn ac mewn cyflwr da.
- Safonau cadw tŷ da iawn.
- Seddi cyfforddus i'r holl westeion ac uchder priodol i fwyta.
- Dewis da iawn o fwyd a diod ar gael.

Pum Seren

- Eiddo cyfleus, sydd wedi'i ddylunio'n dda, lle ceir digon o le. Wedi'i addurno i safon ardderchog ac mewn cyflwr ardderchog.
- Safonau cadw tŷ ardderchog.
- Dewis eang o fwyd a diod ar gael.
- Oriau agor estynedig i ddiwallu anghenion y cwsmer.

4.0 Cod Ymddygiad

Mae'n ofynnol i'r perchennog/rheolwyr ddilyn a chadw at y Cod Ymddygiad canlynol:

- Rhaid trefnu Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus neu rywbeth tebyg a chydymffurfio â'r holl rwymedigaethau cynllunio a diogelwch cymwys a rhwymedigaethau statudol eraill cymwys sydd ar waith.
- Rhaid cyrraedd safonau derbyniol o ofal a gwasanaeth i westeion, sy'n briodol ar gyfer y math o sefydliad.
- Rhaid i'r busnes gyrraedd safon uchel o lendid, a hynny'n gyson ymhob rhan o'r eiddo.
- Rhaid rhoi disgrifiad cywir o'r cyfleusterau a'r gwasanaethau a ddarperir mewn unrhyw hysbyseb, llyfryn neu gyfryngau/deunydd marchnata print neu ddigidol arall.
- Sicrhau bod gwesteion yn gwybod beth yn union sydd wedi'i gynnwys ymhob proses a gweithdrefn a ddyfynnir, gan gynnwys trethi ac unrhyw daliadau eraill. Rhaid hefyd nodi'n glir fanylion taliadau am wasanaethau/cyfleusterau ychwanegol ar adeg archebu.
- Dylai gwesteion gael datganiad polisi clir ar ganslo gwyliau ar adeg archebu h.y. dros y ffôn, drwy e-bost, yn ogystal â'r wybodaeth a roddir mewn print.
- Cadw at y prisiau a ddyfynnwyd ar adeg archebu llety, ffioedd mynediad a

- gwasanaethau eraill, a pheidio â chodi mwy.
- Rhoi gwybod i westeion ar adeg archebu, ac wedi hynny, am unrhyw newid, os caiff y llety ei gynnig mewn anecs ar wahân neu rywbeth tebyg a dynodi lleoliad llety o'r fath ac unrhyw wahaniaeth o ran lefelau cysur a/neu amwynderau i'r llety yn y sefydliad.
- Ar gais, rhoi manylion taliadau sy'n ddyledus a derbynneb, os bydd angen, i westeion.
- Delio â phob ymholiad, cais, archeb a gohebiaeth gan westeion yn brydlon a chwrtais.
- Sicrhau bod gweithdrefnau delio â chwynion ar waith ac yr ymchwilir i bob cwyn a ddaw i law yn brydlon ac yn gwrtais, a bod y gwesteion yn cael gwybod y canlyniad.
- Rhoi sylw priodol i ofynion unigol gwesteion ag anableddau, a gwneud darpariaeth addas lle y bo'n gymwys.

5.0 Amodau ar gyfer Cymryd Rhan

Mae'n ofynnol i sefydliadau sy'n cymryd rhan yng nghynlluniau Croeso Cymru:

- Ddilyn Cod Ymddygiad Croeso Cymru.
- Caniatáu i gynrychiolydd o Croeso Cymru neu ar ran Croeso Cymru gael mynediad rhesymol i'r busnes, ar gais, er mwyn sicrhau bod gofynion statws "Cymeradwywyd" a'r "Cod Ymddygiad" yn cael eu bodloni'n llawn.
- Darparu datganiad mynediad/canllaw hygyrchedd.
- Rhaid i bob busnes gyflawni ei Rwymedigaethau Statudol.
- Ni all unrhyw fusnes sy'n cynnig llety i breswylwyr yr Adran Gwaith a Phensiynau nac sy'n gweithredu fel hostel lloches gymryd rhan yn y cynllun.

6.0 Newid Perchenogaeth

Pan gaiff sefydliad ei werthu, ni all y sgôr bresennol gael ei throsglwyddo i'r perchennog newydd. Rhaid i'r perchennog newydd wneud cais i gymryd rhan yng nghynllun sgorio Croeso Cymru.

7.0 Arwyddion

Arwyddion, Tystysgrifau a Logos Electronig. Pan na fydd sefydliad, am ba reswm bynnag, yn cymryd rhan yng Nghynllun Ansawdd Croeso Cymru sy'n gymwys i'w fath o fusnes mwyach, rhaid cael gwared ar unrhyw arwyddion/

tystysgrifau perthnasol a logos cysylltiedig Croeso Cymru a thestun ar ddeunydd argraffedig ar unwaith. Os na wneir hyn, ni fydd modd i'r sefydliad arddangos na defnyddio ardystiad Croeso Cymru mewn unrhyw ffordd o gwbl.

8.0 Beth i'w Wneud Os Na Fyddwch yn Cytuno â'r Radd Sêr a Roddwyd

Os na fyddwch yn cytuno â nifer y sêr y mae eich eiddo wedi'i gael, neu os na fyddwch yn cytuno ag unrhyw agwedd ar adroddiad yr Asesydd Ansawdd, cysylltwch cyn gynted â phosibl ar ôl i chi gael eich adroddiad ysgrifenedig.

Gallwch ffonio ein tîm yn Aberystwyth ar 0845 0108020 neu anfonwch e-bost i quality.tourism@llyw.cymru a gwnawn geisio helpu.

Fel arall, efallai y byddwch am ysgrifennu atom yn:

Adran Sicrhau Ansawdd
Croeso Cymru
Llywodraeth Cymru
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
SY23 3UR.

OGL

ISBN Digidol: 978-1-80195-623-9

© Hawlfraint y Goron 2021

WG41604



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Adran Sicrhau Ansawdd
Croeso Cymru
Llywodraeth Cymru
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
Ceredigion, SY23 3UR

Ffôn: 0845 010 8020

Ffacs: 0300 062 2081

E-bost: quality.tourism@llyw.cymru